# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**9.00 y.b., DYDD MERCHER, 24AIN CHWEFROR, 2016**

Lleoliad

**Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY**


Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**


(Dosbarthwyd: 18/2/16)

# CYD-BWYLLGOR GWE

### Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Kenneth P. Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd Wyn Ellis Jones | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd Eryl Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Michael Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rita Price | Esgobaeth Wrecsam |
| Diane Chisholm | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Eithne Hughes | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Delyth Molyneux | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Thomas | Cyngor Gwynedd |
| Richard E. Owen | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Karen Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Budd | Cyngor Sir y Fflint |
| John Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Iwan G. Evans | Awdurdod Lletyol |
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Geraint Rees | Llywodraeth Cymru |
| Huw Foster Evans | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes a Chyllid GwE |
| Mohammed Mehmet | Cyngor Sir Ddinbych |

## Sylwedydd

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 1 - 4

(copi'n amgaeedig)

**5. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2015-18 – ATODIADAU AWDURDOD LLEOL** 5 - 30

(copi'n amgaeedig)

**6. CYLLIDEB GWE 2015/16 - ADOLYGIAD TYMOR YR HYDREF 2015** 31 - 35

(copi'n amgaeedig)

**7. CYLLIDEB 2016/17** 36 - 39

(copi'n amgaeedig)

**8. CYTUNDEB PARTNERIAETH (AWDURDODAU AC YSGOLION)** 40 - 55

(copi'n amgaeedig)

**9. CONSORTIA YN CYDWEITHIO**

(adroddiad ar lafar)

**10. RHAGLEN DATBLYGU YMGYNGHORWYR HER**

(adroddiad ar lafar)

**CYD-BWYLLGOR GwE**
**27.1.16**

**Yn bresennol:** **Y Cyng. Eryl Williams (Cadeirydd)**
**Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Wyn Ellis Jones a Gareth Thomas.

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd) a Rita Price (Esgobaeth Wrecsam).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)), John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Delyth Molyneux (Cyngor Ynys Môn), R. Ellis Owen (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) ac Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd).

**Hefyd yn Bresennol:** Huw Foster Evans (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE), Geraint Rees (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr) a Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2015, fel rhai cywir.

**3. SAFONI A CHYMEDROLI CLWSTWR CA2 A 3**

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad a oedd yn manylu ar drefniadau safoni a chymedroli rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer dilysu asesiadau athrawon yn niwedd cyfnod allweddol 2 a 3.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Ei fod yn hawdd anghofio disgyblion na all gyrraedd y meincnod ac felly dylid asesu cynnydd disgybl ers y cyfnod sylfaen;
- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE bod Dafydd Rhys, Ymgynghorydd Her GwE wedi cysylltu efo’r 6% o arweinwyr asesu CA2 a CA3 na fynychodd sesiwn gwybodaeth;
- Yn dilyn y gwaith y gobeithir y bydd gwell dealltwriaeth cenedlaethol gan olygu gwella dibynadwyedd a chysondeb asesiadau athrawon;
- Ei fod yn anodd nodi amser penodol o ran cymharu yn deg yn genedlaethol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi’r adroddiad.**

## 4. YMCHWILIO I'R DREFN GOSOD TARGEDAU, TRACIO CYNNYDD AC YMYRRAETH

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ar ganfyddiadau ymchwil i'r drefn gosod targedau, tracio cynnydd ac ymyrraeth yn deillio o wahaniaeth arwyddocaol rhwng targedau/amcangyfrifon terfynol a gwir berfformiad 2015 CA4 mewn nifer o ysgolion y rhanbarth.

Tynnwyd sylw at yr argymhellion yn deillio o'r ymchwil ar gyfer GwE, awdurdodau lleol ac ysgolion. Nodwyd y cyflwynir yr adroddiad mewn cynhadledd ranbarthol ar 12 Chwefror.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed yr argymhelliad i GwE/Awdurdodau Lleol sefydlu gweithgor o arweinwyr ysgolion ac arbenigwyr technegol er mwyn llunio system generig i dracio'r dangosyddion newydd, nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE y cyd-weithir efo SIMS i greu system gyffredin ar gyfer y rhanbarth gyfan. Nododd yr aelod yr angen i weithredu ar fyrder o ystyried bod y dechnoleg yn bodoli'n barod er sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth.

Cyfeiriodd aelodau at effaith absenoldebau staff a prinder argaeledd athrawon llanw / wrth gefn ym Mathemateg a Saesneg ar berfformiad rhai ysgolion. Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yr edrychir ar sefydlu ymgyrch recriwtio cenedlaethol i geisio denu athrawon i weithio yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 5. CYFNOD ALLWEDDOL 4 LEFEL 2+ - CYNNYDD TUAG AT DARGEDAU 2016

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd tuag at dargedau 2016 CA4 Lefel 2+ fesul Awdurdod Lleol. Nodwyd bod camau wedi eu cymryd i adrodd yn gyson a byddai casgliad canolog o ddata cynnydd yn cymryd lle diwedd Chwefror a diwedd Ebrill 2016.

Nododd Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), yr angen i nodi'n eglur mai targedau'r ysgolion a nodir yn y tabl 'Tymor yr Hydref: Targedau a Rhagfynegiadau Cyfanredol Ysgolion 2016' ac nid rhai a osodir gan yr Awdurdod Lleol. Ychwanegodd bod cadernid targedau ysgolion yn amrywio.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yr heriwyd targedau rhai ysgolion ymhellach i'r her cychwynnol gyda'r targedau wedi eu mireinio o ganlyniad i'r ymyrraeth.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed sicrwydd y gwelir gwellhad yng nghanlyniadau Haf 2016, nododd Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint)) bod y materion a oedd angen sylw wedi eu hadnabod a chynllun gweithredu mewn lle felly ei fod yn obeithiol y bydd y canlyniadau yn well. Ategodd John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y sylwadau gan nodi mai canlyniadau'r arholiadau a fyddai'n rhoi cadarnhad pendant ond ei fod yn ffyddiog y byddai'r canlyniadau yn well.

Amlygwyd pryder bod ystadegau yn cael eu casglu mewn ffyrdd gwahanol ar draws Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 6. RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH

Derbyniwyd cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol (Cefnogaeth a Broceru) GwE ar y rhaglen datblygu arweinyddiaeth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymatebwyd iddynt fel a ganlyn:

- Bod proses ymgeisio i gymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Arweinwyr;
- Bod 102 o arweinwyr canol wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol;
- Bod swyddog cymeradwyo yn yr Awdurdod Lleol i wirio bod unigolyn yn barod i geisio am y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP);
- Bod 47 unigolyn wedi eu cymeradwyo i geisio am y CPCP yn 2016 ond bod cyllid gan Lywodraeth Cymru ond yn ddigonol ar gyfer 41 unigolyn;
- Bod derbyn y cymhwyster CPCP yn golygu bod unigolyn yn addas i weithio fel Pennaeth mewn unrhyw ysgol yng Nghymru, gan gynnwys Ysgolion Eglwysig;
- Bod yr ymrwymiad angenrheidiol yn gallu arwain at anhawster i gael Penaethiaid o'r sectorau Uwchradd ac Arbennig i weithredu fel panelwyr yn y Ganolfan Asesu.

Cyhoeddwyd y cynhelir cynhadledd i oddeutu 1,400 o athrawon am 5.00pm, 12 Chwefror 2016 yn Venue Cymru, Llandudno lle rhoddir cyflwyniad gan Syr John Jones. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau.

## 7. RHWYDWAITH CYFRWNG CYMRAEG AC ADEILADU CYNHWYSEDD

Cyflwynodd Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd) adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar weithgarwch a deilliannau'r Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd. Adroddwyd yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter Iaith yng Ngwynedd derbyniwyd cais gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Nodwyd y cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus i lansio'r Siarter Iaith yn rhanbarthol ar 22 Ionawr 2016. Tynnwyd sylw at gynllun gweithredu ehangu'r Siarter ar draws y rhanbarth.

Nododd Geraint Rees (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru) ei fod yn llongyfarch y rhwydwaith ar ei waith ar draws y rhanbarth ac y gallai ardaloedd eraill elwa o'r arfer da.

Nodwyd sylwadau cadarnhaol o ran y cyd-weithio a nodwyd bod brwdfrydedd i wneud y Siarter yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth.
Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd) y byddai'n trefnu i'r aelodau dderbyn y papurau a gyflwynwyd yn y gynhadledd ynghyd â gwerthusiad o'r diwrnod.

## 8. CYNLLUN BUSNES 2015-18: ADRODDIAD MONITRO

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad monitro cynnydd ar Gynllun Busnes 2015-18.

Nododd Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd) yr angen i sicrhau bod yr hyn a nodir o dan 'Penawdau/Lliniaru' yn y dangosfwrdd monitro yn cyfarch y cerrig milltir.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 9. TREFNIADAU AROLYGIADAU CONSORTIWM RHANBARTHOL ESTYN (EBRILL 2016)

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad yng nghyswllt trefniadau arolygiadau Estyn o'r consortia rhanbarthol, gan nodi y byddai arolwg GwE yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod 18 – 29 Ebrill 2016. Nodwyd y cynhelir arolygiad dilynol ymhen oddeutu 12 mis i edrych ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

Adroddwyd y byddai arolygwyr Estyn yn cyfarfod ag aelodau'r Cyd-bwyllgor yn ystod yr wythnos yn cychwyn 25 Ebrill 2016.

Mewn ymateb i ymholiad parthed capasiti Estyn i gynnal y cyfweliadau yn yr Iaith Gymraeg, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y byddai'n cysylltu efo arweinwyr Estyn i dderbyn cadarnhad.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 p.m. a daeth i ben am 3.50 p.m.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**24 CHWEFROR 2016**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2015-18 – Atodiadau Awdurdod Lleol

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno drafft o Atodiadau Awdurdod Lleol y Cynllun Busnes i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Cynllun Busnes 2015-18 yn gosod gweledigaeth tair blynedd, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth, a chymeradwywyd y cynllun gan y Cyd-bwyllgor mewn cyfarfod ar 12 Tachwedd 2015.

2.2 I gyd-fynd â'r cynllun busnes cyffredinol cynhyrchir atodiad lleol yn benodol ar gyfer pob awdurdod lleol. Gweler isod ddetholiad o'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (Tachwedd 2015).

- Bydd yr holl awdurdodau lleol yn darparu i'w consortiwm ddatganiad o unrhyw newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud dros y 12 mis nesaf o ran trefniadaeth ysgolion a'u trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol.
- Bydd yr atodiad a'r datganiad yn cael eu trafod yn unigol gyda phob awdurdod drwy gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol a'r aelod etholedig sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant ac addysg.

- Bydd Arweinydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n eu galluogi i gynnal trosolwg o'u dyletswyddau statudol a sicrhau atebolrwydd yn eu cylch.
- Bydd angen i atodiad y cynllun busnes gydweddu â chynlluniau corfforaethol eraill yr awdurdod lleol a'r Cynllun Sengl.
- Caiff unrhyw bryderon neu geisiadau gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft na all y rheolwr gyfarwyddwr a'r awdurdod cyfansoddol gytuno arnynt eu hadrodd i aelodau'r Cyd-bwyllgor wrth iddynt ystyried y cynllun drafft.
- Wedi cytuno ar atodiad cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol, gallai'r atodiad hwnnw, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, ffurfio Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y consortiwm a'r awdurdod lleol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r Atodiadau Lleol yn dilyn yr un fformat ac yn manylu ar y gyd-weledigaeth a'r pwrpas ynghyd â'r Amcanion penodol, Cynnig Cynllun Busnes Craidd GwE, Blaenoriaethau Lleol, Camau Gweithredu a Deilliannau

3.2 Caiff cynnydd yn erbyn yr Atodiadau Lleol ei fonitro ar y cyd gan yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth perthnasol a Swyddogion yr ALl, gan adrodd yn ôl i'r Rhwydwaith Gwella Ysgol.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo Atodiadau Awdurdod Lleol y Cynllun Busnes.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â'r Rhwydwaith Gwella Ysgolion, Bwrdd Rheoli GwE a'r Bwrdd Ymgynghorol wrth ddatblygu'r ddogfen.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiadau Lleol Cynllun Busnes GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma yn cwblhau y gwaith ar greu y Cynllun Busnes a ystyriwyd yn y Cyd-Bwyllgor yn Nhachwedd 2015. Swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor yw cytuno a mabwysiadu y Cynllun Busnes blynyddol gyda mewnbwn ac arweiniad gan y Bwrdd Ymgynghorol a'r Bwrdd Rheoli.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r awduron yn deall bydd angen cyflawni'r Cynllun Busnes arfaethedig o fewn yr adnoddau fydd ar gael i GwE, fel sydd wedi'i amlinellu ar gyfer 2016/17 yn yr adroddiad 'Cyllideb Sylfaenol' sydd ar raglen y cyfarfod yma o'r Cydbwyllgor.

## Atodiad 1 - Cynllun Busnes ALl Conwy / GwE Atodiad 2015/16

| Nodau ALlC / GwE | Meysydd a ddarperir yn bresennol fel Cynllun Busnes | Blaenoriaethau ALlC/GwE | Camau | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| **1. Codi safonau dysgu ac addysgu holl ddysgwyr ar draws y rhanbarth yn gyson ar gyfer pob cyfnod allweddol**<br>CBC 1.1.1.6 (EDU) Cydweithio â'n partneriaid i gyflwyno'r agenda gwella ysgol rhanbarthol i godi safonau ym mhob ysgol.<br><br>**2. I wella ansawdd arweinyddiaeth a'i effaith ar wella deilliannau ar draws y consortiwm.**<br>CBC 1.1.5 Plant a phobl ifanc a addysgir mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion yn cyflawni eu potensial o ran dysgu<br><br>**3. Datblygu system hunan-wella.** | **I barhau gyda phob maes yn P1 y Cynllun Busnes rhanbarthol.**<br><br>**I barhau gyda strategau i godi safonau yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a 3 fel nodir yn B1.1 a B1.2 y cynllun busnes.**<br><br>**I barhau i herio a chefnogi yn gadarn yn mhob ysgol oren a choch (gweler cynllun gweithredu hwb ar wahân ar gyfer y rhain)**<br><br>**I sicrhau cefnogaeth a her briodol ym mhob ysgol felyn a gwyrdd (gweler cynllun gweithredu hwb ar wahân ar gyfer y rhain)**<br><br>**I barhau gyda phob maes B2 a B3 yng nghynllun busnes GwE gydag ymateb priodol i anghenion ALlC.** | **Codi cyrhaeddiad holl ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr (yn arbennig bechgyn a PYD) ym mhob pwnc craidd a maes (gan gynnwys llyth a rhif) gan gynnwys DPC a DCS.**<br><br>**Codi cyrhaeddiad holl ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr (yn arbennig bechgyn a PYD) yn CA4 gan roi sylw i TL2+, TL2, L1 a DPC.**<br><br>**I symud bob ysgol goch ac oren, ac ysgolion sydd mewn categori ESTYN allan o'r categorïau o fewn 18 mis (gweler cynlluniau gweithredu ar wahân ar gyfer yr ysgolion unigol hyn)**<br><br>**Paratoi pob ysgol ar gyfer cyrsiau TGAU newydd (gwyddoniaeth yn benodol) ac i gael y deilliannau gorau i'r dysgwyr yn unol â chyrraedd meincnodi LlC a mesurau newydd.**<br><br>**I sicrhau bod Emrys ap Iwan ac Aberconwy yn cael eu tynnu o fonitro ESTYN.**<br><br>**I sicrhau bod Bro Aled yn cael eu tynnu o welliant sylweddol.** | Sicrhau fod model 'Codi Safonau' Conwy yn cael ei gweithredu ym mhob ysgol a bod ymyrraeth briodol yn cael ei ddarparu. Defnyddio'r model i adnabod meysydd cyffredin o ddatblygiad a'u trin mewn grwpiau o ysgolion fel bo'n briodol.<br><br>Yn ogystal â CA2 a CA3, datblygu trefniadau asesu a chymedroli GwE / ALl ar gyfer y cyfnod sylfaen.<br><br>Cefnogaeth ychwanegol i benaethiaid newydd a dros dro yn yr ALI. Gweithredu rhaglenni arweinyddiaeth.<br><br>Darparu cefnogaeth bynciol arbenigol trwy CAs mewn pynciau craidd i ANG yn unol â bodloni gweithio rhanbarthol trosiannol .<br><br>Strategau ymyrraeth HR/ALI/GWE yn unol â'r model cenedlaethol a LlC<br><br>Darparu her, cefnogaeth cwricwlwm a dadansoddi data ar gyfer CA5 ac ôl 16.<br><br>Cyfoethogi'r fforymau penaethiaid adrannau Saesneg, Cymraeg (gan gynnwys ail iaith), mathemateg a gwyddoniaeth trwy ddarparu arbenigedd a rhannu ymarfer da.<br><br>Darparu dealltwriaeth glir i bob ysgol a llywodraethwyr o'r gofynion CGY/CDY newydd. Hyfforddiant penodol i lywodraethwyr ar y maes hwn yn ogystal â hyfforddiant a dargedwyd i gyrff llywodraethol unigol.<br><br>Cefnogaeth ychwanegol CA4:-<br>Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf<br>• Comisiynu uwch arholwr Saesneg/Cymraeg i adolygu cyn bapurau o bob ysgol uwchradd yng Nghonwy i adnabod tanberfformiad cyffredin. Mae Jon Rosser wedi darparu manylion uwch arholwyr CBAC.<br>• Adnabod nodweddion penodol o berfformiad bechgyn mewn arholiadau Saesneg/Cymraeg sy'n effeithio ar ddeilliannau bechgyn yn arholiad Saesneg/Cymraeg TGAU. Cysylltu â Janet Hughes o ran hyn fel rhan o'i swyddogaeth fforwm pynciau craidd Conwy.<br>• Rhoi cyngor penodol ar y strategau ymyrraeth y dylai ysgolion Conwy eu defnyddio i leihau'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn papurau TGAU Saesneg/Cymraeg. Comisiynu unigolyn i wneud darn o waith i adnabod ymarfer gorau ledled Cymru / Lloegr a chyflwyno hyn i'r pennaeth. | **Gwell cyrhaeddiad yn y CS, CA2 a CA3 fel ALl ac mewn ysgolion unigol.**<br><br>**CS**<br>**O 82.9% i 86%**<br><br>**CA2**<br>**O 85.9% i 88%**<br><br>**CA3**<br>**O 87.1% i 88%**<br><br>**TL2+**<br>**53.9% i 59%**<br><br>**Gwell cyrhaeddiad ar TL2+, TL2 (87%), TL1 (97%) a DPC (56%) fel ALl ac mewn ysgolion unigol.**<br><br>**Lleihau'r bwlch gyda grwpiau o ddysgwyr o bob oedran yn arbennig PYD a bechgyn.**<br><br>**PYD**<br>**O 31% i 36.5%**<br><br>**Bwlch bechgyn / merched o 11.9% i 10%** |

| Nodau ALlC / GwE | Meysydd a ddarperir yn bresennol | Blaenoriaethau ALlC / GwE | Camau | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| CBC 1.1.1.4 (EDU) Datblygu TG (isadeiledd) mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad di-dor at addysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau TGCh pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol). | | **I sicrhau bod ysgolion yn cyflwyno dysgu digidol i safon uchel o allu.**<br><br>**Cydweithio agos mewn partneriaeth ag Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg, ADY, cyfnod sylfaen, tîm ymgynnwys, lles / llythrennedd corfforol i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r model cenedlaethol.** | Mathemateg<br>• Comisiynu Uwch Arholwr ar gyfer Mathemateg i adolygu sampl o bapurau o bob ysgol uwchradd yng Nghonwy i adnabod y meysydd penodol o arholiadau mathemateg ble nad yw dysgwyr yn perfformio cystal â dysgwyr eraill. Cysylltu â CBAC i ganfod pwy yw'r uwch arholwyr<br>• I roi cyngor penodol, yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, o sut gall ysgolion unigol ddatblygu cyrhaeddiad eu dysgwyr. Gellir targedu'r gefnogaeth hon yn briodol trwy Fforwm Mathemateg Conwy.<br><br>Gwyddoniaeth<br>• Cefnogi ysgolion, trwy gomisiynu cefnogaeth briodol trwy'r newidiadau i'r cwricwlwm gwyddoniaeth. Ysgolion yn awyddus i sicrhau nad yw canlyniadau yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y newidiadau cwricwlwm a gynllunnir. Mae'n bwysig bod gan ysgolion Conwy ddealltwriaeth glir o'r llwybrau posib trwy'r ddarpariaeth cwricwlwm newydd. Gellir targedu'r gefnogaeth hon yn briodol trwy Fforwm Gwyddoniaeth Conwy<br><br>PYD<br>• Adnabod ymarfer gorau yn genedlaethol a threfnu diwrnod i benaethiaid Conwy ymweld â'r ysgolion hyn. Ymgynghori ag iNet am gymorth wrth drefnu hyn. Grwpiau trafod i benaethiaid/arweinwyr GAD yn dilyn hyn.<br>• Penaethiaid i gael gwybodaeth lawn mewn perthynas â'r mesur Data Categoreiddio.<br><br>Llythrennedd / Rhifedd<br>• Hwyluso rhannu data ysgol i ysgol a thrafodaeth ynghylch tueddiadau a phatrymau mewn profion darllen a rhifedd.<br>• Parhau gyda'r fforymau llythrennedd a rhifedd ar draws yr hwb i rannu ymarfer da ar draws sir Ddinbych a Conwy.<br><br>TGCh a Gallu Digidol<br>• Cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant penodol yn y maes hwn gan ddefnyddio arbenigedd pwnc /ysgol arwain. | **Lleihau'r risg o ysgolion yn disgyn i gategori statudol ESTYN a chategori cefnogaeth coch.**<br><br>**Canran o ysgolion oren wedi gostwng o 23 i 15**<br><br>**Cynnydd/gwelliant yn nifer/ansawdd ymgeiswyr am swyddi penaethiaid**<br><br>**Ysgolion yn barod ar gyfer newidiadau yn y cwricwlwm TGAU.**<br><br>**Ysgolion yn parhau i ddatblygu llythrennedd corfforol fel blaenoriaeth ac i fod yn hollol barod ar gyfer yr agenda gallu digidol.**<br><br>**Saesneg 70%**<br>**Maths 69%**<br>**Gwyddoniaeth 86%**<br>**Cymraeg 79%** |

**Atodiad 2**

# GwE ac Adran Addysg Gwynedd

# Cynllun Busnes Atodol 2015-2016

# GwE and Gwynedd Education Department

# Local Authority Business Plan Annex 2015-2016

| GWELEDIGAETH |
|---|
| **Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.** |

| PWRPAS |
|---|
| **Sicrhau bod yr ysgolion a'r ddarpariaeth yn arfogi'r plant a'r pobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.** |

| MESURIADAU SYDD ANGEN GWELLA | BLE RYDYM AM FOD ERBYN HAF 2016 * |
|---|---|
| **Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill trothwy lefel 1 neu (5 gradd A* - G TGAU)** | **99.8%** |
| **Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg** | **69.8%** |
| **Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a gwyddoniaeth** | **69.6%** |
| **Sgôr pwyntiau wedi gapio ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod** | **Data haf 2015 – 362.0** |
| **Dim un ysgol yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD dros gyfnod treigl tair blynedd.** | **0** |
| **Gwella perfformiad ar y lefelau uwch ym mhob cyfnod allweddol gan gynnwys cynyddu canran A*-A ar gyfer disgyblion TGAU, gan gynnwys perfformiad dysgwyr PYD** | **Cynnydd ym mhob cyfnod allweddol** |

| | |
|---|---|
| **Codi safonau Saesneg a Mathmateg yn CA4** | **12 ysgol i dorri trothwy 70% Mathemateg**<br>**2 ysgol i gyrraedd 65% Mathemateg**<br>**11 ysgol i dorri trothwy 75% Saesneg**<br>**3 ysgol i gyrraedd 70% Saesneg** |
| **Dim un ysgol arall yn cael ei rhoi mewn categori statudol Estyn** | **0** |
| **Ansawdd arweinyddiaeth – cynnydd mewn % o ysgolion sy'n cael dyfarniad gradd A/B** | **Cynyddu i 85%** |
| **Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3** | **84%** |
| **Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14oed)** | **90%** |
| **Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd** | **95.3%** |

***(*Yn seiliedig ar dargedau ysgolion uwchradd Gwynedd)***

Gwynedd LA / GwE Business Plan Appendix 2015/16 Cynllun Busnes GwE a Gwynedd Atodol 2015/16

Tud. 13

| GwE Aims<br><br>Nodau GwE | Core GwE Business Plan Offer<br><br>Cynnig Cynllun Busnes Craidd GwE | Gwynedd Priorities<br><br>Blaenoriaethau Gwynedd | Actions<br><br>Camau gweithredu | Outcome<br><br>Deilliant |
|---|---|---|---|---|
| *Yr hyn yr ydym am i GwE ei wneud ar ein rhan:*<br><br>Sicrhau bod cynlluniau datblygu, prosesau hunan arfarnu a systemau tracio o leiaf yn dda yn ein hysgolion<br><br>Darparu arweiniad er mwyn codi safonau Saesneg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd<br><br>Darparu arweiniad er mwyn codi safonau mathemateg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion uwchradd<br>Sicrhau bod y | *Parhau gyda'r holl feysydd ym Ml1 y Cynllun Busnes rhanbarthol*<br><br>*Parhau gyda'r strategaethau i godi safonau ar draws y cyfnodau, fel y nodir ym Ml1.1 a B1.2 y cynllun busnes*<br><br>*Parhau i ymyrryd yn rymus yn yr holl ysgolion Melyngoch a Choch, gan gefnogi mewn perthynas â gweithgarwch dilynol ôl-arolwg Estyn pan fo'n briodol*<br><br>*Sicrhau cefnogaeth* | Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 (gan gynnwys dysgwyr sydd â hawl i PYD):<br>• Sicrhau bod perfformiad TGAU gwyddoniaeth yn gadarn ym mhob ysgol.<br>• Cynyddu % y disgyblion sy'n ennill trothwy lefel 2+.i 70%<br>• Codi safonau mathemateg a Saesneg ym mhob ysgol.<br>• Cynyddu canran y dysgwyr PYD sy'n ennill trothwy lefel 2+. | Targedu adrannau sy'n tanberfformio ac adrannau sydd â pherfformiad 'cyfforddus'.<br><br>Sicrhau adnoddau ychwanegol a phriodol er mwyn codi safonau mathemateg a Saesneg.<br><br>Parhau i gefnogi ysgolion i fod yn hyderus wrth gyflwyno'r fanyleb/cymwysterau newydd trwy gynllun Ysgolion Arweiniol GwE + Rhwydweithiau Pynciol GwE<br><br>Sicrhau defnydd aeddfed o ddata i adnabod a chefnogi ysgolion ble mae angen gwella cyflawniad TGAU gwyddoniaeth.<br><br>Cynhaliaeth briodol wedi'i thargedu drwy weithredu'r 'model newydd'.<br><br>Targedu rhaglenni datblygiad | Dim un ysgol yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD dros gyfnod treigl tair blynedd.<br><br>Perfformiad yr Awdurdod yn parhau i fod yn uwch na'r meincnod cenedlaethol yn y TL2+ ac yn anelu at y trothwy 70%.<br><br>12 ysgol i dorri trothwy 70% Mathemateg = Ardudwy; Berwyn; Botwnnog; brynrefail; DO; Eifionydd; Friars; Gader; Glan y Mor; SHO; Tryfan; Tywyn<br><br>2 ysgol i gyrraedd 65% Mathemateg = Dyffryn Nantlle; Moelwyn<br><br>11 ysgol i dorri trothwy 75% Saesneg = Ardudwy; Berwyn; Botwnnog; Brynrefail; DN; DO; Eifionydd; Gader; Glan y Mor; Tryfan; Tywyn<br><br>3 ysgol i gyrraedd 70% Saesneg = SHO; Moelwyn; FriarsAnelu at berfformiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| fanyleb wyddoniaeth newydd yn barod i'w gweithredu yn ein hysgolion uwchradd<br><br>Sicrhau bod ein hysgolion yn deall ac yn barod i weithredu manylebau newydd<br><br>Targedu adrannau sydd yn tan berfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus<br><br>Cyflwyno model newydd o gefnogi ysgolion er mwyn:<br>1. Bod ysgolion sydd mewn peryg o lithro yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gellir rhoi ymyriad priodol ar waith.<br>2. Cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol a | *a her briodol yn yr holl ysgolion Melyn a Gwyrdd*<br><br>*Parhau gyda holl feysydd B2 a B3 cynllun busnes GwE gan ymateb yn briodol i anghenion ysgolion Gwynedd*<br><br>*Sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol* | | proffesiynol ar gyfer Arweinwyr Canol er mwyn datblygu eu gallu i arwain ar addysgu a dysgu da o fewn eu hadrannau.<br><br>Brocera cefnogaeth benodol i benaethiaid adrannau sy'n tanberfformio er mwyn arwain a datblygu'r addysgu a dysgu yn eu hadrannau, gan flaenoriaethau mathemateg a Saesneg yn y lle cyntaf.<br><br>GwE i ddarparu cefnogaeth i XX o benaethiaid adran lle mae angen gwelliannau mewn perfformiad ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth.<br><br>Sicrhau bod gan bob ysgol gynlluniau gwella strategol ac effeithiol sydd yn dangos yn glir sut y byddant yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth wedi'i gomisiynu gan GwE a'r grantiau cenedlaethol.<br><br>Sicrhau bod gan adrannau sy'n tanberfformio fynediad cyflym at gymorth sydd yn arbenigol a phenodol i'w cyd-destun.<br><br>Ffurfioli trefn o fesur perfformiad | TGAU gwyddoniaeth sydd yn debyg i, neu'n well na'r pynciau craidd eraill. Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sydd yn ennill 5 graddau A* ac A. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| datblygu partneriaethau newydd.<br>3. adnabod rhagoriaeth ac arfer effeithiol ym meysydd arweinyddiaeth a phedagogiaeth a'u rhannu;<br>4. gwella deilliannau diwedd cyfnod allweddol;<br>5. Cefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli uchaf<br>6. Sicrhau nad oes ysgol yn mynd i gategorïau statudol Estyn | | | ac adrodd ar gynnydd.<br><br>Sicrhau bod yr awdurdod yn monitro a herio'r ysgolion a gyfeirir i'r Tîm Rheoli gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Targedu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol er mwyn datblygu eu gallu i arwain ar addysgu a dysgu da o fewn eu hadrannau<br><br>Sicrhau rhaglen ar gyfer datblygu penaethiaid presennol ymhellach<br><br>Parhau i gryfhau system asesu athrawon trwy gymedroli asesiadau fel eu bod yn gyson ar draws y Rhanbarth a Chymru.<br><br>Cefnogi Cyngor Gwynedd i rymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion ac adrannau unigol mewn ysgolion uwchradd drwy:<br>1. Gyfrannu at | | Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n perfformio yn chwartel 1 a 2 ym mhob cyfnod allweddol. | Targedu ysgolion penodol sydd wedi perfformio yn chwartel 3 a 4 dros gyfnod treigl.<br><br>Gweithredu i weithredu rhaglen o gefnogaeth drwy'r partneriaid cynorthwyol i'r ysgolion melyngoch a choch.<br><br>Cynhaliaeth briodol wedi'i thargedu drwy weithredu'r 'model newydd', sef:<br>• Adolygiad cymheiriaid (ysgolion gwyrdd a melyn cadarn) – cyd-herio a chyd-gefnogi;<br>• Parau/triawdau (ysgolion melyn) – cyd-herio a chyd-gefnogi gyda chefnogaeth wedi'i thargedu; ac<br>• Ysgolion melyngoch/coch – herio a chefnogi dwys.<br><br>Annog a hyrwyddo ysgolion i fanteisio ar raglen ddatblygu arweinyddiaeth GwE ar gyfer arweinwyr ar bob lefel. Targedu hyd at 14 o arweinwyr da i fynychu rhaglen hyfforddiant GwE.<br><br>Sicrhau gweithdrefnau sydd yn | Cynyddu canran y disgyblion sy'n ennill y DCS yn y cynradd trwy wella perfformiad ysgolion penodol.<br><br>Cynyddu canran y disgyblion sy'n ennill y DPC yn y cynradd trwy wella perfformiad ysgolion penodol.<br><br>Cynyddu canran y disgyblion sy'n ennill y DCS +1 lefel yn y cynradd trwy wella perfformiad ysgolion penodol.<br><br>Cynyddu canran y disgyblion sy'n ennill y DPC +1 lefel yn y cynradd trwy wella perfformiad ysgolion penodol.<br><br>Gwella perfformiad disgyblion PYD.<br><br>Cynyddu nifer yr ysgolion sydd yn y categorïau gwyrdd a melyn.<br><br>Lleihau nifer yr ysgolion sydd yn y categori coch.<br><br>Lleihau'r nifer o ysgolion sydd yng nghategori Monitro Estyn.<br><br>Dim un ysgol i fod yn y categorïau statudol Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig.<br><br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran sy'n ennill DCS trwy wella |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Is-banel craffu ar berfformiad ysgolion<br>2. Gefnogi'r Cyngor i ddefnyddio ei bwerau statudol<br><br>Cyfathrebu yn gyson ac effeithiol gyda'r Awdurdod parthed datblygiadau yn yr ysgolion<br><br>Paratoi cynllun gweithredu manwl i gyd-fynd â'r fanyleb hon<br><br>Paratoi adroddiad blynyddol ar safonau i'r Pwyllgor Craffu<br><br>Paratoi arfarniad blynyddol ac adnabod meysydd i wella i gyd-fynd â chynllun gweithredu'r fanyleb yma a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu | | | ddigon miniog i dargedu perfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr.<br><br>Sicrhau gweithrediad ac ymateb priodol gan bob ysgol i'r hyfforddiant 'gosod gwaelodlin' ym meysydd hunan arfarnu a chynllunio effeithiol.<br><br>Gwella cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon.<br><br>Hyrwyddo arfer da ar lawr y dosbarth drwy sicrhau bod arferion gorau (ar lefel leol a chenedlaethol) yn cael eu lledaenu'n effeithiol, a bod effaith hynny'n cael ei fonitro'n ofalus<br><br>Hyrwyddo digwyddiadau hyfforddiant rhanbarthol a gweithgareddau cyfoethogi gydag ysgolion.<br><br>Sicrhau bod ysgolion yn cynnig hyfforddiant a mentora ar gyfer cymorthyddion dysgu fel eu bod yn gallu cefnogi medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr MAT, dysgwyr sydd â hawl i PYD a | perfformiad mewn ysgolion penodol<br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran sy'n ennill DPC CA2 trwy wella perfformiad mewn ysgolion penodol<br><br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran o ddysgwyr PYD sy'n ennill DCS trwy wella perfformiad mewn ysgolion penodol<br><br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran o ddysgwyr PYD sy'n ennill DPC CA2 trwy wella perfformiad mewn ysgolion penodol<br><br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran o ddysgwyr sy'n cyrraedd TL2+ CA4<br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran o ddysgwyr sy'n cyrraedd L2 Mathemateg CA4<br><br>Cynnydd o xx% ar ffigwr 2015 yn y ganran o ddysgwyr sy'n cyrraedd L2 Saesneg CA4<br><br>Perfformiad treigl dysgwyr PYD yn y TL2+ yn uwch na'r meincnod cenedlaethol o 32.0% ymhob ysgol Uwchradd<br><br>Pob un o ysgolion cynradd/uwchradd categori dilyniant Monitro Estyn wedi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Lles er mwyn adnabod arfer dda yn y maes presenoldeb<br><br>Cydweithio i gael darlun cryno cyfansawdd o ysgol | | | dysgwyr sydd ag ADY.<br><br>Datblygu a darparu'r Rhaglen Arwain Addysgu a Dysgu (ar gyfer Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd ac aelodau o Uwch Dimau Rheoli)) gan ddefnyddio arbenigedd a phrofiad o'r ysgolion cyd-arweiniol.<br><br>Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd effeithiol o ddata tracio er mwyn cael effaith cadarnhaol ar addysgu a dysgu. | gwneud y cynnydd disgwyliedig ac wedi cael eu tynnu o'r categori yn unol ag amserlen gweithredu Estyn<br><br>Dim un ysgol ychwanegol i gael ei gosod mewn categori dilyniant statudol [GS/MA]<br><br>Erbyn Hydref 2016, cynyddu'r % o ysgolion cynradd categori cynhaliaeth gwyrdd/melyn i 91% a lleihau y rhai yn y categori coch i 0%<br><br>Erbyn Hydref 2016, cynyddu'r % o ysgolion uwchradd categori cynhaliaeth gwyrdd/melyn i 85.7%.<br><br>Ysgolion nad ydynt wedi ymateb yn briodol i'r hyfforddiant 'gosod gwaelodlin' ym meysydd hunan arfarnu a chynllunio effeithiol wedi'u hadnabod er mwyn gweithrediad pellach/ymyrraeth. |
| | | Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio | Grymuso gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd.<br><br>YH GwE i dargedu hyd at __ o arweinwyr da i fynychu rhaglen hyfforddiant GwE. | Rhaglen fonitro a herio effeithiol yn weithredol a threfniadau clir ar gyfer adrodd ar gynnydd.<br>Lefel her/atebolrwydd uwch yn weithredol.<br><br>Ansawdd arweinyddiaeth wedi gwella ar draws<br>ysgolion y ddau sector. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy’r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i fonitro ac arfarnu cynnydd yr ysgolion ac i ddwysau'r gweithredu a’r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig ac i weithredu’n fwy uniongyrchol gan ddefnyddio pwerau statudol, efo ysgolion penodol cyn unrhyw ymweliadau gan Estyn.<br><br>Grymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion ac adrannau unigol mewn ysgolion uwchradd. | Dim un ysgol yn derbyn barn *anfoddhaol* gan Estyn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 a lleihad o 50% yn y nifer sy’n cael eu dyfarnu’n *ddigonol*.<br><br>Gwell perchnogaeth o’r rhaglen wella ar draws yr ystod rhanddeiliaid [Penaethiaid, Swyddogion, Arweinwyr System, Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig].<br><br>Awdurdod yn gwneud defnydd mwy buan ac effeithiol o’i bwerau statudol er mwyn sicrhau’r buddiannau gorau i blant a phobl ifanc. |
| | | Gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. | Yr Awdurdod i gomisiynu adroddiad ar amodau arwain a rheoli ysgolion y sir.<br><br>Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau.<br><br>Adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau addysg o ansawdd i bawb.<br><br>Datblygu cyfundrefn ysgol i ysgol rymus a rhwydweithio rheolaethol er mwyn rhannu’r | Gweithredu ar argymhellion cytunedig yr adroddiad.<br><br>Darpar reolwyr a rheolwyr yn derbyn datblygiad proffesiynol drwy raglenni hyfforddiant arweinyddiaeth GwE.<br><br>Darpar arweinwyr y dyfodol wedi’u hadnabod ar gyfer ymgeisio am CPCP ac wedi’u cefnogi yn ystod y broses.<br><br>Gweithrediad effeithiol o’r ‘model newydd’ er mwyn sicrhau cyfundrefn ‘ysgol i ysgol’ rymus. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | arfer orau i osgoi dyblygu.<br><br>Gweithredu'n gyflym a phriodol er mwyn sicrhau sefydliadau hyfyw drwy drefniadaeth ysgolion effeithiol ac effeithlon. | Arweinyddiaeth effeithiol ar draws ystâd yr ysgolion, gan gynnwys ysgolion sydd yn rhannu arweinyddiaeth rhwng mwy nag un ysgol. |

**Atodiad 3**

# GwE ac Adran Addysg Sir Ddinbych

## Cynllun Busnes Atodol 2015-2016

## GwE and Denbighshire Education Department

## Local Authority Business Plan Annex 2015-2016

**GWELEDIGAETH** ***VISION***

All children and Young people in Denbighshire realise their potential in terms of achievements and attainment; that they have a happy, rewarding and inclusive experience of school.

**PWRPAS** ***PURPOSE***

Sicrhau bod yr ysgolion a’r ddarpariaeth yn arfogi’r plant a’r pobl ifanc i gyflawni’r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a’r sgiliau sy’n eu galluogi i fyw a ffynnu’n lleol.

*Ensure that the Service progresses from good to excellent; and to narrow the gap between Denbighshire and the top performing authorities in the UK to ensure that all Young people have the best chance to succeed.*

DRAFT



| **MESURIADAU SYDD ANGEN GWELLA** ***INDICATORS TO BE IMPROVED*** | **BLE RYDYM AM FOD ERBYN HAF 2016 *** ***WHERE WE WILL BE BY SUMMER 2016**** |
|---|---|
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill trothwy lefel 1 neu (5 gradd A* - G TGAU)<br>*Percentage of pupils aged 16 having achieved Level 1 threshold (5 A*-G GCSE grades)* | 95.1% |
| Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg.<br>*Percentage of pupils within maintained schools on the previous 31st August, who achieved the Level 2+ threshold including GCSE A*-C in Welsh first language or English and Mathematics.* | 60.8% |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a gwyddoniaeth.<br>*Percentage of 16 year old pupils who achieved the CSI (Grade C or higher) in Welsh/English, Mathematics and Science.* | 57% |
| Sgôr pwyntiau wedi gapio ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod.<br>*Capped Points Score for LA maintained school pupils who are aged 15 on the previous 31st August.* | Data haf 2015 – Summer data - 345 |
| Dim un ysgol yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD dros gyfnod treigl tair blynedd.<br>*Not a single school performing in the FSM lowest quartile over three years.* | 0 |

| | |
|---|---|
| Gwella perfformiad ar y lefelau uwch ym mhob cyfnod allweddol gan gynnwys cynyddu canran A*-A ar gyfer disgyblion TGAU, gan gynnwys perfformiad dysgwyr PYD.<br>*Improve performance in the higher levels at all key stages including increasing the percentage of A*-A for GCSE pupils, and including FSM pupils.* | Cynnydd ym mhob cyfnod allweddol<br><br>*Increase at all key stages* |
| Codi safonau Saesneg a Mathemateg yn CA4.<br><br>*Improve the standards of Mathematics and English at KS4.* | 75% ysgol i gyrraedd 70% Mathemateg<br>62.5% ysgol i gyrraedd 65% Mathemateg<br>50% ysgol i dorri trothwy 75% Saesneg<br>87.5% ysgol i gyrraedd 70% Saesneg |
| Dim un ysgol arall yn cael ei rhoi mewn categori statudol Estyn.<br>*No additional schools placed in an Estyn statutory category.* | 0 |
| Ansawdd arweinyddiaeth – cynnydd mewn % o ysgolion sy'n cael dyfarniad gradd A/B<br>*Quality of Leadership- increase in the % of schools deemed to be grade A/B.* | Cynyddu i 87.5%<br>*Increase to 87.5%* |
| Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.<br>*Percentage of pupils in LA maintained schools assessed in Welsh 1st Language at the end of KS3.* | |
| Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14oed).<br>Percentage of pupils who achieved level 3 or above in KS2 (7-11 years old) who received a teacher assessment in Welsh 1st Language at the end of KS3 (11-14 years old). | 21.3% |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd.<br>*Percentage attendance in primary schools.* | 94.7% |

*(*Yn seiliedig ar dargedau ysgolion uwchradd Sir Ddinbych –based on Denbighshire secondary schools data)*



DRAFT

| Amcanion GwE<br>Amcanion Sir Ddinbych | Cynnig Cynllun Busnes Craidd GwE | Blaenoriaethau Cyngor Sir Ddinbych | Gweithredu | Deilliannau |
|---|---|---|---|---|
| **Codi safonau Addysgu a Dysgu ar gyfer holl ddysgwyr yn gyson ar draws y Rhanbarth ar gyfer pob cyfnod allweddol.**<br><br>**Gwella safon Arweinyddiaeth a'r effaith a gaiff ar wella deilliannau ar draws y consortiwm.**<br><br>**Datblygu system sy'n hunan-wella.**<br><br>**-Caiff safonau cyflawniad eu cynnal a'u gwella yn unol â thargedau sy'n heriol ond cyraeddadwy.**<br>**-Mae lefelau'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn parhau i fod ar y disgwyliedig neu'n well.**<br>**-Nid oes unrhyw ysgol wedi'i gosod mewn categori statudol gan Estyn.**<br>**-Mae cyrhaeddiad y grwpiau sy'n perfformio isaf yn gwella, ac mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng grwpiau o ddysgwyr yn lleihau.** | **Parhau gyda'r holl feysydd ym Ml1 y Cynllun Busnes rhanbarthol.**<br><br>**Parhau gyda strategaethau i godi safonau yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 fel y nodir ym Ml1.1 a B1.2 y cynllun busnes.**<br><br>**Parhau i ymyrryd yn rymus yn yr holl ysgolion Melyngoch a Choch (gweler cynllun gweithredu hwb ar wahân).**<br><br>**Sicrhau cefnogaeth a her briodol yn yr holl ysgolion Melyn a Gwyrdd (gweler cynllun gweithredu hwb ar wahân).**<br><br>**Parhau gyda holl feysydd B2 a B3 cynllun busnes GwE gan ymateb yn briodol i anghenion ysgolion Sir Ddinbych.**<br><br>**Sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol.** | **Codi cyrhaeddiad holl ddysgwyr yn y dangosyddion perfformiad craidd yn y sector cynradd a CA3, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:-**<br>- **Perfformiad bechgyn**<br>- **PYD / disgyblion nad ydynt yn derbyn PYD**<br>- **Perfformiad bechgyn mewn Cymraeg**<br>- **Perfformiad CA2**<br>- **CS yn ILIC Saesneg a DM**<br>- **Perfformiad Disgyblion Mwy Abl yn yr holl Gyfnodau Allweddol.**<br><br>**Codi cyrhaeddiad holl ddysgwyr yn CA4; TL2+, TL2, L1 a DPC, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:-**<br>- **Perfformiad bechgyn**<br>- **PYD / disgyblion nad ydynt yn derbyn PYD**<br>- **A-A***<br>- **Perfformiad bechgyn mewn Cymraeg**<br><br>**Bydd yr holl ysgolion sydd ar hyn o bryd mewn categori ESTYN yn cael eu tynnu o'r categori o fewn amserlen benodol, a ni chaiff unrhyw ysgol arall eu gosod mewn categori statudol.**<br><br>**Sicrhau bod yr holl ysgolion sy'n cael eu gosod yn y categorïau Coch a Melyngoch yn gwneud y cynnydd gofynnol o fewn yr amserlen benodedig.**<br><br>**Sicrhau bod yr holl ysgolion yn barod i gynnig darpariaeth effeithiol o fanyleb newydd y cwrs sy'n canolbwyntio'n benodol ar feysydd pynciau craidd.**<br><br>**Sicrhau bod prosesau gosod targedau a thracio yn gywir.**<br><br>**Sicrhau bod holl ddysgwyr Sir Ddinbych yn derbyn addysgu o safon dda.**<br><br>**Sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydymffurfio â gofynion statudol.** | Sicrhau bod model 'Codi Safonau' hwb Sir Ddinbych/Conwy yn cael ei weithredu yn yr holl ysgolion, a bod ymyrraeth bwrpasol a phriodol yn cael ei darparu. Sicrhau dadansoddiad cadarn o ddata Llythrennedd a Rhifedd Sir Ddinbych er mwyn adnabod ardaloedd cyffredin sydd angen sylw, a mynd i'r afael yn briodol.<br><br>Yn ogystal â CA2 a CA3, datblygu gweithdrefnau asesu a chymedroli GwE/ yr ALl ar gyfer y CS.<br><br>Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer Penaethiaid newydd a Phenaethiaid mewn gofal yn yr ALl.<br><br>Hyfforddiant, cefnogaeth a monitro pwrpasol ar gyfer arweinwyr canol pynciau craidd i sicrhau darpariaeth effeithiol o'r cwricwlwm presennol a'r cwricwlwm newydd:-<br>o GwE i goladu gwybodaeth er mwyn adnabod yr arweinwyr hyn yn Sir Ddinbych<br>o Hyfforddi a mentora ar gyfer y penaethiaid adran a'r aelodau staff unigol a'u hadnabuwyd.<br>o Sicrhau bod sesiynau sgiliau astudio a dosbarthiadau adolygu yn cael eu cynnal i gefnogi carfannau o ddisgyblion.<br>o Sicrhau bod adnoddau addysgu ychwanegol yn gweithio gyda charfannau bychain o ddysgwyr sy'n cael trafferth gyda phynciau allweddol.<br>o Gwella'r cynllunio ar gyfer cyrhaeddiad mewn rhai ysgolion.<br>o Mynediad i arfer rhagorol i weithio gydag adrannau unigol.<br>o Dadansoddi cwestiynau arholiad i ddeall ardaloedd o dangyflawniad.<br>o Datblygu fforymau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer Penaethiaid Adran.<br>o Sicrhau bod ymarferion rhagfynegi yn cael eu cwblhau ym mhob cyfnod allweddol.<br><br>Cadw cysylltiad agos ag AD Sir Ddinbych ynglŷn â thangyflawniad cyson athrawon.<br><br>Llymder a chysondeb wrth wirio safon gwaith a sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth i ddysgwyr.<br><br>Sicrhau bod systemau monitro cadarn yn eu lle i ddarparu tystiolaeth bod ysgolion ar darged i gyrraedd y deilliannau a gytunwyd. | **Gwelliant mewn Cyrhaeddiad**<br>**Cyfnod Sylfaen I**<br>**87.6% 2015 to 85.5% 2016**<br>**Cyfnod Allweddol 2 DPC**<br>**87.9% 2015 i 89% 2016**<br>**Cyfnod Allweddol 3 DPC**<br>**84.1% 2015 i 86% 2016**<br>**Cyfnod Allweddol 4**<br>**TL2+,**<br>**55.8% 2015 i 60.8% 2016**<br>**TL2**<br>**87.2% 2015 i 89% 2016**<br>**TL1**<br>**94.6% 2015 i 95.1% 2016**<br>**CSI**<br>**51.6% 2015 i 57% 2016**<br><br>**Canlyniadau Profion Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd yn cyd-fynd ag asesiadau diwedd cyfnod allweddol.**<br><br>**Holl ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn y profion cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd (mesur cynnydd dros 1000)**<br><br>**Dwy ysgol Goch ac 11 ysgol Felyngoch i symud i'r categori Melyn o fewn yr amserlen.**<br><br>**Ni arsylwyd unrhyw wersi anfoddhaol gan Estyn.** |

DRAFT

**Atodiad 4**
**ALl Sir y Fflint / Atodiad Cynllun Busnes GwE 2015/16**

**Gweledigaeth: Sicrhau bod disgyblion Sir y Fflint yn cael profiad dysgu sy'n cyd-fynd â'u hanghenion unigol (academaidd, emosiynol, cymdeithasol, diwylliannol) ac sy'n eu galluogi i wireddu eu potensial**

**Pwrpas: Darparu system addysg fodern sy'n perfformio yn dda ac o safon uchel, a fydd yn galluogi disgyblion Sir y Fflint i ddatblygu sgiliau dysgu gydol oes i'w cefnogi yn ystod eu taith addysgol a'r tu hwnt i'r byd ehangach.**

| ***Amcanion GwE***<br>Amcanion Sir y Fflint | **Cynnig Cynllun Busnes Craidd GwE** | **Blaenoriaethau Sir y Fflint** | **Camau gweithredu** | **Deilliant** |
|---|---|---|---|---|
Bydd cymorth rhwng ysgol ac ysgol, cydweithio a herio wrth galon cyfundrefn gwella ysgolion y Consortiwm – bydd hyn yn rhoi'r llwyfan i ysgogi rhannu arbenigedd ac arferion effeithiol, herio arferion a pherfformiad presennol i wella deilliannau dysgwyr a pherfformiad pob ysgol.

Bydd yr ALl, mewn cydweithrediad agos â GwE, yn mynd ati i hyrwyddo datblygiad cymorth rhwng ysgol ac ysgol. Bydd hefyd yn cynnig cymorth i ysgolion ym mhob agwedd arall sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl uniongyrchol gwella ysgolion.

Bydd Ymgynghorwyr Her GwE yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid ac arweinwyr ysgolion i adolygu cryfderau ysgolion a meysydd sydd angen eu gwella. Yna bydd hyn yn arwain at nodi arferion i'w rhannu ar draws pob ysgol ac yn darparu'r sylfaen tystiolaeth er mwyn brocera cymorth penodol ar gyfer ysgolion yr ystyrir eu bod yn tanberfformio.

Bydd GwE yn nodi meysydd sydd yn peri pryder mewn ysgolion unigol, gan alluogi'r ALl/GwE i gyflawni ei rôl eiriolaeth drwy ymyrryd pan fydd pryderon yn ymwneud â'r capasiti i wella.

**Swyddogaethau Statudol**

**Cymorth, gwaith monitro, her ac ymyrraeth mewn ysgolion**

Gwelir isod amlinelliad o swyddogaethau'r ALl/GwE.

| ALl | Ysgol/Corff Llywodraethu |
|---|---|
| • Mae'r ALl wedi comisiynu GwE i nodi ysgolion sy'n peri pryder gan ddefnyddio'r dystiolaeth a ganlyn:<br>– Adroddiadau arolygiadau ysgolion statudol<br>– Adroddiadau arolygon ALl<br>– Dadansoddiad o ddata arholiadau, profion ac asesu<br>– Arolygon a chymorth cyn ac ar ôl arolygiadau<br>– Gwaith monitro gan GwE, a chyngor a gwybodaeth gan staff y gwasanaethau cymorth<br>– Hunanwerthuso, adroddiadau ac ymgynghoriadau Estyn | • Cymryd rhan mewn proses hunanwerthuso drylwyr, barhaus i adnabod meysydd sy'n peri pryder<br>• Rhoi gwybod i'r ALl a/neu GwE cyn gynted ag y caiff maes sy'n peri pryder ei nodi<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r ALl a GwE i fynd i'r afael â'r pynciau/meysydd sy'n peri pryder<br>• Gweithredu bob amser yn unol â rôl gytbwys 'Ffrind Beirniadol/sy'n cwestiynu' i'r ysgol. |

Caiff gwaith monitro a gwerthuso cychwynnol ei wneud yn bennaf drwy ymweliadau gan Ymgynghorwyr Her GwE a fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ALl i:

- fonitro a gwerthuso gwaith a pherfformiad yr ysgolion ac adrodd ar hyn;
- herio ysgolion i wella deilliannau disgyblion ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth;
- ymyrryd mewn ysgol lle bo'r angen a rhoi cymorth i ysgolion sy'n cael anhawster a'r rheini sydd â gwendidau difrifol;
- rhoi cymorth i ysgolion fynd i'r afael â gweithgaredd i wella'r ysgol drwy roi cyngor a chymorth ym maes addysgeg, hunanwerthuso, arweinyddiaeth a rheolaeth a hwyluso rhwydweithio a rhwydweithiau ymarfer proffesiynol.

Mae 3 Cham i'r broses o gategoreiddio ysgol.

- Mae Cam 1 yn cynnwys data mewn perthynas â pherfformiad a safonau ac mae'n nodi pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio yn erbyn set o fesuriadau a gytunwyd. Caiff set o fesuriadau data eu cynhyrchu a'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i greu dyfarniad rhwng 1-4 ar gyfer pob ysgol [1 yw'r ysgolion â'r perfformiad a safonau uchaf a 4 yw'r rhai â'r perfformiad a safonau isaf].
- Mae Cam 2 o'r broses gategoreiddio yn cynnwys cynnal trafodaethau agored rhwng ymgynghorydd her y consortiwm rhanbarthol ac arweinwyr yr ysgol. Mae'r dyfarniad hwn [graddau A>D] yn dangos graddau'r hyder yng nghapasiti'r ysgol i gyflwyno ei gwelliannau ei hun. Mae ysgolion sydd â chapasiti gwella o A yn dangos y capasiti mwyaf i wella ac mae'r rhai â chapasiti gwella o D yn dangos y capasiti lleiaf i wella. Hunanwerthusiad o'r ysgol yw man cychwyn y broses o ddod i ddyfarniad ynghylch capasiti'r ysgol i hunanwella. Mewn ysgolion uwchradd, lle bydd nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf/Saesneg a mathemateg yn llai na'r cyfartaledd sydd wedi'i bwysoli dros y tair blynedd diwethaf, ni fydd y dyfarniad ynghylch capasiti'r ysgol i hunanwella yn well na C. Mewn ysgolion cynradd, lle bydd cynnydd y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim o flwyddyn i flwyddyn yn llai na chynnydd dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ni ddylai'r dyfarniad ynghylch capasiti'r ysgol i wella fod yn well na C fel rheol. Dylai perfformiad dysgwyr a'r dyfarniad ynghylch y capasiti i wella gyd-fynd i raddau helaeth.
- Mae Cam 3 o'r broses gategoreiddio yn golygu cyfuno canlyniadau Cam 1 a Cham 2 er mwyn pennu categori'r ysgol o safbwynt cymorth. Bydd y categorïau terfynol yn seiliedig ar system codau lliw a bydd lliwiau'r categorïau yn dangos lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol – gwyrdd, melyn, oren neu goch (bydd angen y cymorth lleiaf ar yr ysgolion yn y categori gwyrdd a'r cymorth mwyaf dwys ar yr ysgolion coch) :

| |
|---|
| Ysgolion effeithiol iawn nad oes angen llawer o waith monitro arnynt[gwyrdd]. |
| Ysgolion effeithiol y mae angen rhywfaint o waith monitro a chymorth arnynt[melyn]. |
| Ysgolion y mae angen eu gwella ac sydd angen cymorth a gwaith monitro penodol [oren] |
| Ysgolion y mae angen eu gwella fwyaf ac sydd angen llawer iawn o gymorth [coch]. |

Bydd y broses hon wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Ionawr a chynhelir adolygiadau tymhorol.

Defnyddir y meini prawf a restrir yn atodiad 1 fel canllaw i lywio Cam 2. Mae'r tabl yn atodiad 2 yn amlinellu sut y diffinnir y categorïau cymorth a her ac fe'i ddefnyddir i drefnu cymorth ac ysgogi ymyrraeth. Caiff categorïau ysgolion unigol eu rhannu â'r Pennaeth a Chadeirydd y Corff Llywodraethu. Bydd yr awdurdod hefyd yn rhoi dadansoddiad cyffredinol o'r categorïau cymorth a her ar draws pob ysgol i'r Penaethiaid.

Ystyrir ysgolion yn y categorïau oren a choch yn ysgolion y mae angen **ymyrraeth** arnynt a bydd lefel y risg i ddysgwyr yn pennu graddau'r ymyrraeth honno. Yn y cyd-destun hwn, bydd ymyrraeth yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol a ganlyn.

- Defnyddir ymyrraeth pan fydd achos i bryderu am safonau, ansawdd, diogelwch disgyblion, ymlyniad at ofynion statudol a chanllawiau neu amgylchiadau tebyg eraill. Bydd dwysedd yr ymyrraeth yn cynyddu yn unol â lefel y risg i ddysgwyr a'r ysgol. Y nod cyffredinol fydd sicrhau'r gwelliannau disgwyliedig â'r lefel isaf o ymyrraeth a bydd yn cynnwys, fel man cychwyn, trafodaeth agored i gytuno ar union natur y tanberfformiad.
- Bydd yr ymyrraeth yn gadarn, cyflym a phriodol lle ceir arwyddion o danberfformiad.
- Caiff unrhyw gamau gweithredu ac amserlenni eu cytuno rhwng y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr a'u defnyddio fel sail ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd.
- Disgwylir i'r Corff Llywodraethu fonitro'n fanwl sut y caiff unrhyw gynlluniau gweithredu a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen ymyrraeth eu rhoi ar waith.
- Caiff ymyrraeth leol ei chynllunio i gefnogi ysgolion er mwyn sicrhau gwelliannau a bydd yn amodol ar amserlenni penodol. Os na fydd ymyrraeth leol yn arwain at y gwelliannau angenrheidiol o fewn amserlen a gytunwyd [gweler atodiad 2], bydd yr ALl yn defnyddio ei bwerau ymyrryd ffurfiol fel y'u nodir yn y Ddeddf Addysg [atodiad 3].

Disgwylir i'r ysgolion hyn adrodd ar unrhyw gynnydd i grŵp o aelodau etholedig, a fydd yn gyfrifol am adolygu categori partneriaeth ysgolion unigol a phenderfynu a ddylid rhoi pwerau ymyrryd ffurfiol ar waith.

Os nodir bod angen Mesurau Arbennig ar ysgol neu bod angen Gwelliant Sylweddol yn dilyn Arolygiad, bydd yr ALl a'r Corff Llywodraethu fel mater o frys yn cydymffurfio â gofynion statudol.

Cysylltir ymyrraeth â gwaith monitro a chymorth ychwanegol. Caiff y gefnogaeth ychwanegol ei theilwra i sefyllfaoedd unigol gan yr ALl a GwE a gall gynnwys cymorth penodol gan Ymgynghorydd Her neu bod GwE yn comisiynu cymorth ymgynghorydd allanol ychwanegol/mentora gan Bennaeth sy'n gyfoed, ac ati.

> Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn cynnwys dyletswyddau statudol yr ALl a'r ysgolion i nodi, monitro a darparu ar gyfer anghenion disgyblion ADY a grwpiau eraill o ddisgyblion sydd â nodweddion gwarchodedig.

**Gosod a chytuno ar dargedau ar gyfer cynnydd, presenoldeb a gwaharddiadau**

Mae gosod targedau ar lefel unigolyn, cohort, ysgol ac awdurdod yn rhan annatod o strategaeth yr ysgol i wella. Dylai gosod targedau yn systematig a chadarn fod yn elfen hanfodol o strategaeth ddatblygu pob ysgol. Rhaid i dargedau osod her briodol i bob disgybl; gan seilio targedau ar ddata perfformiad cadarn yn ymwneud â phob disgybl a chohort. Mae proffil y disgyblion sy'n dod i'r ysgol yn newid o flwyddyn i flwyddyn a bydd angen i'r targedau a osodir gan yr ysgol adlewyrchu hyn.

Rôl yr ALl/GwE yw sicrhau bod ysgolion yn dadansoddi data allweddol, a rhoi cymorth iddynt osod targedau heriol ar gyfer gwella.

Yn y cyd-destun hwn bydd rôl yr ALl a'r ysgol fel y nodir isod.

| ALl[1] | Ysgol/Corff Llywodraethu |
|---|---|
| ▪ Trafod a chytuno ar dargedau gyda'r ysgolion ar gyfer cyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol<br>▪ Trafod a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, dadansoddi ac adolygu targedau<br>▪ Herio ysgolion pan na chaiff targedau eu cyrraedd<br>▪ Darparu datblygiad proffesiynol ac arweiniad ar ddadansoddi data a gosod targedau<br>▪ Cyhoeddi targedau'r ALl cyfan ar gyfer cyflawniad ym mhob cyfnod allweddol yn flynyddol<br>▪ Darparu adroddiadau blynyddol a dadansoddiad o ddata targedau a pherfformiad ysgolion unigol | ▪ Gosod targedau cadarn, heriol ac uchelgeisiol ar gyfer perfformiad yr ysgol a disgyblion yn flynyddol<br>▪ Rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r ALl ar fformat electronig o fewn y terfynau amser a bennwyd<br>▪ Seilio targedau ar asesiadau athrawon a/neu data profion<br>▪ Defnyddio data perfformiad i gefnogi mentrau i wella'r ysgol<br>▪ Trosglwyddo data disgyblion unigol pan fydd disgyblion yn newid ysgolion gan ddefnyddio'r System Drosglwyddo Gyffredin<br>▪ Gwerthuso ansawdd y broses o osod targedau drwy ddadansoddi data perfformiad mewn perthynas â'r targedau a osodwyd<br>▪ Ymateb yn gadarnhaol i'r her a godwyd gan yr ALl os na chaiff targedau eu cyrraedd<br>▪ Cyhoeddi data perfformiad ysgolion ym mhrosbectws yr ysgol ac adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn unol â gofynion statudol<br>▪ Trefnu i gynrychiolwyr yr ysgol gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol a drefnir gan yr ALl |

[1] Mae'r ALlau wedi gofyn i GwE ymgymryd â rhai o'r cyfrifoldebau hyn.

**Pontio rhwng yr ysgol gynradd/uwchradd**

Mae trefniadau pontio neu drosglwyddo effeithiol rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd yn hollbwysig a rhaid eu rhoi ar waith er lles addysg y disgyblion. Diffinnir cyfrifoldebau ysgolion a'r ALl isod.

| ALl[1] | Ysgol |
|---|---|
| ▪ Darparu cyngor ac arweiniad ar ddatblygiadau diweddaraf LlC o ran trosglwyddo<br>▪ Hwyluso'r gwaith o gyflenwi'n effeithiol y pum elfen sy'n ymwneud â throsglwyddo, sef:<br>rheoli a chydlynu trosglwyddo<br>parhad o ran cynllunio'r cwricwlwm<br>parhad o ran yr addysgu a dysgu<br>cysondeb o ran asesu, monitro a thracio cynnydd disgyblion<br>adolygu a monitro'r cynllun at ddibenion asesu'r effaith ar safonau<br>▪ Cynorthwyo â'r gwaith o drosglwyddo data electronig o'r ysgolion cynradd i'r ysgolion uwchradd<br>▪ Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ysgolion ynglŷn ag arferion da wrth drosglwyddo | ▪ Llunio ac adolygu cynlluniau trosglwyddo'r ysgol yn flynyddol, mewn cydweithrediad ag ysgolion y clwstwr<br>▪ Cynnwys gweithgareddau perthnasol ac effeithiol mewn perthynas â phum elfen statudol y cynllun trosglwyddo<br>▪ Ymgysylltu ag ysgolion a restrir yng nghynllun trosglwyddo'r ysgol mewn paratoad ar gyfer gweithgareddau trosglwyddo<br>▪ Trosglwyddo cofnodion e.e. ffeiliau AAA i'r ysgol dderbyn pan fydd y disgyblion yn trosglwyddo<br>▪ Darparu data ychwanegol, lle bo ar gael, i'r ysgolion uwchradd<br>▪ Glynu at ofynion LlC o ran gofynion asesu a chymedroli<br>▪ Ystyried cyngor ar arferion da a gweithredu arnynt lle bo hynny'n briodol er mwyn gwella'r profiad trosglwyddo i ddisgyblion |

**Hyfforddiant a rôl Llywodraethwyr**

Ceir diffiniad o gyfrifoldebau'r ysgolion a'r ALl isod.

| ALl[2] | Ysgol |
|---|---|
| ▪ Darparu cyngor ac arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynglŷn â'u rôl a chyfrifoldebau mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau<br>▪ Siapio'r rhaglen hyfforddiant a datblygiad blynyddol, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol, consortia a chenedlaethol<br>▪ Darparu hyfforddiant yn unol â chynnwys statudol Llywodraeth Cymru: cwrs sefydlu, deall data perfformiad yr ysgol; rôl y Cadeirydd; rôl y Clerc;<br>▪ Sefydlu Cyrff Llywodraethu, paratoi a diweddaru offerynnau llywodraethu<br>▪ Darparu cyngor a chymorth i benodi Llywodraethwyr<br>▪ Cadw cofnod o aelodaeth y Corff Llywodraethu<br>▪ Prosesu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ôl yr angen.<br>▪ Cadw cofnod o bresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi a datblygu<br>▪ Darparu cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu mewn perthynas â phenodiadau uwch yn yr ysgol. | ▪ Nodi anghenion hyfforddiant llywodraethwyr unigol a'r holl gorff llywodraethu a threfnu cymorth/hyfforddiant fel y bo'n briodol.<br>▪ Darparu manylion cyfleoedd hyfforddiant i'r holl lywodraethwyr a sicrhau eu bod yn bresennol.<br>▪ Hwyluso'r gwaith o sefydlu llywodraethwyr newydd.<br>▪ Hyrwyddo presenoldeb llywodraethwyr ar gyrsiau hyfforddi.<br>▪ Rhoi gwybod i'r ALl pwy yw'r llywodraethwr a enwyd ar gyfer hyfforddiant llywodraethwyr. |

[2] Mae'r ALlau wedi gofyn i GwE ymgymryd â rhai o'r cyfrifoldebau hyn.

**Cynnal adeiladau**

Isod ceir rhestr o gyfrifoldebau'r ysgolion a'r Adran Eiddo, yn unol â'r hyn a nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

| ALl | Ysgol |
|---|---|
| ▪ Paratoi a chadw Rhestr Ddethol o Gontractwyr gan gynnwys asesiad technegol, ariannol, capasiti iechyd a diogelwch, a sicrhau bod ganddynt drefniadau yswiriant priodol.<br>▪ Paratoi rhaglen gynnal a drefnir yn ystod tymor yr hydref blaenorol.<br>▪ Trefnu gwaith cynnal ac adferol a gynlluniwyd yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contract y Cyngor ac arferion tendro da, fel derbyn tendrau ar sail ansawdd a phris. Sicrhau y caiff yr holl waith ei wneud yn unol â Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Gweithredu fel Goruchwylydd Cynllunio yn unol â gofynion y Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli.<br>▪ Archwilio eiddo yn rheolaidd.<br>▪ Dadansoddi methiannau a rhoi cyngor neu drefnu mesurau adferol.<br>▪ Caniatáu gwasanaeth 24 awr 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i faterion brys.<br>▪ Monitro prosiectau cynnal i sicrhau y caiff y gwaith ei wneud yn unol â'r gofynion, a monitro perfformiad y contractwr.<br>▪ Awdurdodi taliadau ar gontractau cynnal.<br>▪ Ymrwymiadau cyfrifyddu a monitro'r gyllideb. Prosesu anfonebau yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.<br>▪ Darparu cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaeth a ddiffinnir yn yr Atodlen hon.<br>▪ Trefnu contractau gwres canolog er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r Cyngor.<br>▪ Rhoi cyngor ar fesurau i Arbed Ynni.<br>▪ Trefnu a monitro'r cytundebau cynnal a ganlyn: glanhau hidlyddion ffaniau dargludo, cynnal lifftiau, goleuadau argyfwng, atgyweirio boeleri, atgyweirio offer nwy, systemau amddiffyn rhag mellt, glanhau tanciau dŵr, systemau rheoli ynni, ac wrinalau.<br>▪ Rhoi cyngor ynglŷn â'r Rheoliadau Rheoli Asbestos.<br>▪ Archwilio'r system drydanol yn ôl yr angen o dan y Rheoliadau IEE.<br>▪ Adolygu'r gwasanaethau yn flynyddol.<br>▪ Sefydlu Protocol ar gyfer contractwyr/ymgynghorwyr sy'n gweithio mewn ysgolion.<br>▪ Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn y rhaglen a gynllunwyd bob tymor.<br>▪ Cynnal cyfarfodydd cynnydd misol â Phenaethiaid Uwchradd a chyfarfodydd bob tymor â Phenaethiaid Cynradd, gan gynnwys adolygiad o'r rhaglen gynnal a gynlluniwyd. Bydd un o'r cyfarfodydd hyn yn ystod tymor yr haf yn gyfarfod ar y cyd gyda chynrychiolwyr y Corff Llywodraethu.<br>▪ Paratoi adroddiad ysgrifenedig blynyddol ynglŷn â'r rhaglen gynnal.<br>▪ Rhoi cyngor i'r Corff Llywodraethu ynglŷn â'u dyletswyddau asesu risg mewn perthynas â chynnal adeiladau. | ▪ Trefnu i adfer addurnwaith mewnol a gorffeniadau lloriau, ac eithrio pan gaiff y rhain eu heffeithio gan wasanaethau a gyflenwir gan yr Adran Eiddo neu o ganlyniad i wasanaethau o'r fath.<br>▪ Trefnu i atgyweirio ffenestri neu gwarelau drysau sydd wedi torri neu wedi'u difrodi gan gynnwys gosod byrddau arnynt dros dro er diogelwch, ac eithrio pan fydd y difrod hwnnw yn deillio'n uniongyrchol o wasanaethau a gyflenwir gan yr Adran Eiddo.<br>▪ Cynnal y teledu cylch cyfyng a'r larymau diogelwch.<br>▪ Glanhau adeiladau, gan gynnwys ffenestri.<br>▪ Cefnogi Contractwyr Cynnal pan fyddant ar y safle.<br>▪ Monitro a gwirio ansawdd mân waith cynnal, gwerth llai na £1000.<br>Y gwaith cynnal sylfaenol a ganlyn (dyletswyddau gofalwr):<br>Archwilio landeri a phibellau i weld a ydynt yn gollwng.<br>Clirio gwastraff o'r cafnau.<br>Archwilio switsys trydanol/ystafelloedd switsys bob dydd gan dalu sylw arbennig i lanweithdra, peryglon posibl fel gollyngiadau, sŵn anarferol neu gorboethi a diogelwch.<br>Cofnodi darlleniadau mesuryddion fel y gall eraill ddadansoddi'r ynni.<br>Cynnal profion diogelwch fel gwiriadau RCD bob mis.<br>Cynnal archwiliadau ac adrodd am unrhyw broblemau.<br>Newid lampau a chael gwared ag unrhyw hen fylbiau a thiwbiau.<br>Archwilio'r panel rheoli tân bob dydd.<br>Gwirio am ollyngiadau olew, dŵr neu nwy o'r systemau mecanyddol.<br>Gwirio paneli rheoli am lampau diffygiol.<br>▪ Bydd yn rhaid i'r ysgol dalu am unrhyw wasanaethau a gaiff eu cyflenwi gan yr Adran Eiddo, sy'n gyfrifoldeb i'r Corff Llywodraethu. |

**Materion Iechyd a diogelwch**

Caiff cyfrifoldebau'r ddau barti eu hamlinellu isod:

| ALl | Ysgol |
|---|---|
| ▪ Darparu cyngor i Benaethiaid a Llywodraethwyr ynglŷn â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Darparu cyngor ynglŷn â pharatoi Polisïau Iechyd a Diogelwch.<br>▪ Trefnu hyfforddiant pan fo hynny'n briodol.<br>▪ Monitro pob aelod staff a chontractwyr o ran eu cydymffurfiaeth â materion Iechyd a Diogelwch a datrys / unioni unrhyw fethiant i gydymffurfio yn unol â hynny.<br>▪ Mewn ymgynghoriad â'r corff llywodraethu, trefnu bod gwaith adferol yn cael ei wneud ar gyfer y meysydd hynny y maent yn eu rheoli, er mwyn ymdrin ag unrhyw waith nas cwblhawyd yn ôl yr angen i gydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch yr ALl a threfnu i gostau'r gwaith hwnnw gael eu tynnu o gyllideb yr ysgol.<br>▪ Ymyrryd yn y gwaith o reoli iechyd a diogelwch mewn ysgolion lle ceir pryder. | ▪ Sicrhau bod gan yr ysgol bolisi iechyd, diogelwch a lles a bod y polisi hwnnw yn weithredol;<br>▪ Sicrhau ymateb priodol i unrhyw ganllawiau iechyd a diogelwch a gyhoeddir gan yr Awdurdod;<br>▪ Dilyn trefniadau'r Awdurdod i gofnodi, ymchwilio ac adrodd am unrhyw ddigwyddiadau;<br>▪ Sicrhau bod system ar waith i nodi risgiau a, lle bo hynny'n ymarferol, bod trefniadau addas er mwyn rheoli'r risgiau a nodwyd.<br>▪ Sicrhau bod yr ysgol yn glynu at yr holl reoliadau angenrheidiol ac yn cynnal gwiriadau priodol.<br>▪ Gweithredu fel gofalwr cyfrifol adeiladau'r ysgol.<br>▪ Cynllunio, cyllidebu a rheoli'r meysydd atgyweirio a chynnal y maent yn gyfrifol amdanynt gan sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a staff ar yr un pryd, codi cyflawniad disgyblion a sicrhau'r gwerth gorau gan ddefnyddio'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael iddynt. |

**Atodiad 1**

**Cam 2:** Fframwaith a meini prawf ar gyfer hunanwerthuso a'r gallu i hunanwella mewn perthynas ag arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu

**Capasiti i wella A**

- Mae arweinwyr ysgolion yn deall ac yn gwybod yn iawn beth yw cryfderau eu hysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Caiff camau priodol eu cymryd yn brydlon. Mae camau wedi arwain at welliannau parhaol mewn deilliannau ar gyfer yr holl brif ddangosyddion allweddol (gan gynnwys y trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf/Saesneg a mathemateg, ar gyfer ysgolion uwchradd).
- Mae hunanwerthuso yn gadarn ar draws yr holl ddangosyddion perfformiad a cheir pwyslais clir ar ddeilliannau ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Mae'r gwaith o gynllunio gwelliannau ynghyd â'r defnydd o adnoddau'n cyd-fynd yn dda â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf a gwneir y defnydd gorau ohonynt er budd y safonau a gaiff eu cyflawni gan ddysgwyr.
- Mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r holl ddata sydd ar gael ynghylch perfformiad, gan gynnwys canlyniadau arholiadau allanol a phrofion, fel rhan o arferion rheoli ac arferion gwella effeithiol. Maent yn defnyddio data cywir ar lefel yr unigolyn, dosbarth, grŵp, cohort, pwnc ac ysgol er mwyn monitro cynnydd. Defnyddir y deilliannau'n dda iawn ar gyfer pennu targedau sy'n ddigon heriol. Eir ati'n benodol i adolygu a dadansoddi'n effeithiol berfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel sail i strategaethau addysgu. Caiff polisïau eu gweithredu mewn modd cyson.
- Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n ysbrydoli ac yn cymell staff i gyflawni deilliannau da ar gyfer pob dysgwr. Caiff capasiti arweinyddiaeth o fewn yr ysgol ei adeiladu mewn modd effeithiol.
- Caiff polisïau a mentrau i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol eu gweithredu'n llwyddiannus gan arweinwyr a rheolwyr ysgolion er mwyn gwella safonau. Mae arweinwyr yn mynd ati i rannu arferion da y tu allan i'r ysgol. Mae effaith eu cefnogaeth wedi arwain at welliannau o ran y ddarpariaeth a'r safonau mewn ysgolion eraill. Mae llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth o safon am berfformiad i herio a chefnogi'r ysgol i wneud gwelliannau. Mae rhai o'r gwelliannau hyn yn rhagorol.
- Mae gan bob aelod staff rolau a chyfrifoldebau clir a phenodol ac maent yn arddangos safonau uchel o safbwynt cymhwysedd proffesiynol. Mae'r rheolaeth linell a'r atebolrwydd o ran ansawdd yr addysgu a'r dysgu a deilliannau yn effeithiol o safbwynt cyflawni gwelliannau parhaol ar gyfer dysgwyr. Mae arweinwyr a rheolwyr yn ymyrryd yn effeithiol pan fo tystiolaeth o addysgu a dysgu aneffeithiol sy'n arwain at dangyflawni ymhlith dysgwyr.
- Caiff y pennaeth a'r tîm arwain eu dwyn i gyfrif mewn modd effeithiol gan y corff llywodraethu. Mae gan y corff llywodraethu wybodaeth ardderchog am berfformiad y dysgwyr a'r staff. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau ar sail deilliannau a chaiff ei ddefnyddio i fonitro llwyddiannau a heriau.
- Mae gan arweinwyr yr ysgol systemau cadarn sy'n gweithio'n dda i reoli perfformiad staff ac i ddelio'n gyflym ac yn effeithiol â thangyflawni neu feithrin staff addysgu y mae eu perfformiad yn gyson ragorol.
- Mae gan arweinwyr yr ysgol systemau cadarn sy'n gweithio'n dda i sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu'n effeithiol. Rhoddir polisïau ar waith yn gyson ac maent yn arwain at welliannau o safbwynt deilliannau dysgwyr.
- Mae atebolrwydd a systemau yn gadarn ac yn sicrhau gwelliant parhaus mewn addysgu a dysgu, a safonau a chynnydd dysgwyr. Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a chynnydd yr holl grwpiau o ddysgwyr yn dda neu'n well. Ceir strategaethau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu.
- Mae gan yr holl staff addysgu a'r staff cymorth gyd-ddealltwriaeth glir o'r hyn yw addysgu, dysgu ac adborth i ddysgwyr sy'n ardderchog a da a gaiff ei hatgyfnerthu trwy'r broses gymedroli o fewn yr ysgol. Ceir systemau cadarn sy'n sicrhau bod asesiadau athrawon yn gyson. Ceir cydberthyniad agos a chadarn rhwng asesiadau athrawon a sgoriau safonedig mewn profion neu arholiadau allanol.
- Mae polisïau a systemau clir yn eu lle sy'n rhoi manylion am brosesau ac arferion o safon ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu gyda chyfrifoldebau clir wedi'u nodi ar gyfer yr holl staff. Caiff y deilliannau monitro a gwerthuso eu hadrodd yn rheolaidd i'r corff llywodraethu ac maent yn arwain at ystod briodol o gamau gweithredu.
- Caiff canlyniadau'r gwerthusiadau arsylwi, adborth i staff a ffynonellau tystiolaeth eraill eu dadansoddi a'u defnyddio gan arweinwyr i gynnal cynnydd ac i wella'n fwy. Eir i'r afael â thangyflawni mewn modd cadarn a chyflym.
- Mae'r ysgol yn rhannu ei harferion da yn fewnol ac ar lefel clwstwr a rhanbarthol sy'n cael effaith gadarnhaol.

**Capasiti i wella B**

- Mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd i'w gwella ac maent yn ymateb yn briodol i'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae effaith ar ddeilliannau llawer o ddangosyddion allweddol, gan gynnwys y trothwy Lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg iaith gyntaf/Saesneg a mathemateg, ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Mae hunanwerthuso yn drylwyr ac yn gywir ar draws mwyafrif y dangosyddion ac mae'n canolbwyntio ar ddeilliannau.
- Yn gyffredinol, mae'r arweinwyr yn defnyddio data ynghylch perfformiad yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddata cywir a dibynadwy, gan gynnwys arholiadau allanol, asesiadau a chanlyniadau profion safonedig. Mae'r ysgol yn gosod targedau heriol ar y rhan fwyaf o lefelau – unigolyn, dosbarth, grŵp targed, cohort, pwnc ac ysgol. Caiff perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn bendool, ei adolygu a'i ddadansoddi'n briodol fel sail i strategaethau addysgu.
- Mae gan yr arweinwyr a'r staff weledigaeth gyffredin a chlir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar sicrhau deilliannau da ar gyfer pob dysgwr. Mae ambell aelod o staff yn tangyflawni ond mae camau i reoli perfformiad ac i wella addysgu yn eu lle ac mae tystiolaeth o welliant. Gweithredir polisïau a mentrau i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus.
- Mae llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth am asesiadau a pherfformiad i fonitro perfformiad yr ysgol. Maent yn dangos ymrwymiad i herio a chefnogi'r ysgol er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni mewn sawl maes. Mae penderfyniadau heriol wedi'u gwneud i wella safonau yn y rhan fwyaf o feysydd.
- Mae gan bob aelod o staff rolau a chyfrifoldebau pendant o safbwynt ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac mae llawer o staff yn cyflawni lefel dda o gymhwysedd proffesiynol. Mae'r rheolaeth linell a'r atebolrwydd am ddeilliannau yn glir ac maent yn cyfrannu at wella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae'n ofynnol i arweinwyr yr ysgol adrodd ar eu cyfrifoldebau i'r corff llywodraethu.
- Mae llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau ar berfformiad dysgwyr a staff. Mae'r rhain yn cefnogi'r corff llywodraethu'n dda o safbwynt ei swyddogaeth fonitro. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cyd-fynd â blaenoriaethau a bennwyd yn gywir drwy hunanwerthuso cadarn.
- Mae'r llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad i herio a chefnogi'r ysgol i wneud y gwelliannau angenrheidiol neu i wneud penderfyniadau anodd sy'n codi safonau ar gyfer dysgwyr. Mae'r corff llywodraethu'n cyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae gan arweinwyr yr ysgol systemau da a gaiff eu defnyddio'n dda gan fwyaf i reoli perfformiad staff.
- Mae gan arweinwyr yr ysgol drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn llythrennedd a rhifedd. Mae rhan anghysondebau, fodd bynnag, o safbwynt y modd y caiff y trefniadau hyn eu gweithredu ar lefel rheolaeth ganol.
- Yn gyffredinol, mae atebolrwydd a systemau yn gadarn. Ar y cyfan, maent yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a dysgu, ac ar safonau a chynnydd dysgwyr. Caiff mân faterion o ran ansawdd anghyson eu nodi ac mae'r gefnogaeth briodol yn ei lle i'w gwella. Ceir strategaethau ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n arwain at welliannau.
- Mae gan y rhan fwyaf o'r staff addysgu a rhai o'r staff cymorth ddealltwriaeth glir o'r hyn yw addysgu a dysgu ac adborth i ddysgwyr sy'n ardderchog a da ac mae rhai ohonynt yn rhan o'r broses gymedroli o fewn yr ysgol. Ceir cydberthyniad cymesur rhwng asesiadau athrawon a sgoriau safonedig mewn profion neu arholiadau allanol.
- Mae polisïau, systemau a phrosesau yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu a chyfeirir at gyfrifoldebau arweinwyr. Caiff canlyniadau gwaith monitro a gwerthuso eu hadrodd i'r corff llywodraethu ond nid yw hyn yn digwydd fel mater o drefn.
- Caiff ansawdd yr addysgu a'r dysgu o amrywiaeth o ffynonellau ei fonitro'n rheolaidd ond defnydd cyfyngedig a wneir o werthuso i lywio datblygiadau ar gyfer y dyfodol.
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhan fwyaf o ganlyniadau'r gwerthusiadau arsylwi, adborth i staff a ffynonellau tystiolaeth eraill i fonitro cynnydd.
- Mae'r ysgol yn rhannu rhai enghreifftiau o arferion da yn fewnol ac ar lefel clwstwr a rhanbarthol sy'n cael effaith gadarnhaol.

**Capasiti i wella C**

- Nid yw arweinwyr yr ysgol yn gwerthfawrogi'n llawn gynifer o'r meysydd y mae angen eu datblygu nac/neu'n ymdrin â hwy yn ddi-oed. Gall arweinwyr a rheolwyr ddisgrifio gweithgareddau datblygu'r ysgol ond nid ydynt yn gwerthuso nac yn deall eu heffaith.
- Nid yw hunanwerthuso yn gyson nac yn rhan annatod o brosesau ar draws yr ysgol, ac/neu nid yw'n canolbwyntio'n gyson ar ddeilliannau.
- Fel rhan o broses reoli'r ysgol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd cyfyngedig o ddata ar berfformiad. Nid ydynt yn defnyddio amrywiaeth ddigonol o ddata, fel arholiadau allanol, asesiadau a phrofion safonedig ac/neu mae ychydig o anghysondeb o ran pa mor dda y caiff y data eu defnyddio. Nid yw perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi'n effeithiol ac nid yw'n sail i strategaethau addysgu effeithiol.
- Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gyfyngedig ar gyfer yr ysgol i wella ei deilliannau. Nid yw'r staff yn deall y nod hwn nac yn ei roi ar waith yn gyson, neu nid yw'n gallu ysgogi'r staff na dysgwyr i wella. O ganlyniad, nid yw'r staff yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf y mae angen eu datblygu. Caiff polisïau a mentrau eu gweithredu i fodloni rhai o'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ni chaiff blaenoriaethau allweddol, megis llythrennedd a rhifedd, eu cyflwyno'n gyson dda.
- Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol ond nid ydynt yn defnyddio gwybodaeth am asesiadau a pherfformiad yn systematig i fonitro, gwerthuso neu herio'r ysgol i wella. Nid yw'r llywodraethwyr wedi cefnogi nac arwain penderfyniadau anodd i wella safonau.
- Mae'r rhan fwyaf o rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio ond nid yw'r rheolaeth linell na'r atebolrwydd ar gyfer addysgu, dysgu a deilliannau yn gyson glir a/neu mae diffyg dealltwriaeth ohonynt. Mae gormod o athrawon yn parhau i gyflwyno gwersi gwael. Nid yw staff uwch yn mynd i'r afael â thangyflawni. Nid yw staff yn atebol am eu cyfrifoldebau. Nid yw gwaith yn cael eu gyflwyno o fewn yr amser a bennwyd ar ei gyfer.
- Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth gyfyngedig am berfformiad dysgwyr a staff os ydynt yn cael unrhyw wybodaeth o gwbl. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi rhai o'r blaenoriaethau cywir ond nid yw staff allweddol yn cael eu dwyn i gyfrif pan nad ydynt yn cymryd y camau angenrheidiol. Ni chaiff tangyflawniad ei nodi'n ddigon aml ac nid yw'r ysgol yn mynd i'r afael ag ef yn ddigon cadarn a chyflym.
- Nid yw'r corff llywodraethu'n llwyr ddeall ei rolau a'i gyfrifoldebau. Cyfyngedig yw'r systemau sy'n bodoli ar gyfer rheoli perfformiad staff yn effeithiol.
- Nid yw atebolrwydd a systemau yn rhan annatod o'r ysgol. Effaith gyfyngedig a gânt ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn annigonol a/neu mae ei ansawdd mewn dosbarthiadau neu bynciau penodol yn peri pryder.
- Nid yw strategaethau i wella'r addysgu a'r dysgu yn rhan annatod o'r ysgol a chyfyngedig yw eu heffaith. Mae'r safonau cyflawniad a/neu'r cynnydd yn anfoddhaol.
- Dim ond rhai o'r staff addysgu sydd â dealltwriaeth glir o'r hyn yw addysgu, dysgu ac adborth i ddysgwyr sy'n ardderchog a da. Ni cheir cymedroli mewnol, neu os yw'n digwydd mae'n gyfyngedig iawn, i hybu dealltwriaeth yr athrawon a'r staff cymorth. Ceir cydberthyniad gwael rhwng asesiadau athrawon a sgoriau safonedig mewn profion neu arholiadau allanol.
- Mae polisïau a systemau yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu ond nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion nac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae yna rywfaint o adrodd i lywodraethwyr ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
- Mae'r arsylwi ar yr addysgu a'r dysgu yn gyfyngedig ac nid yw'n gyson ar draws yr ysgol. Mae gwerthuso arferion yn beth prin iawn. Gwneir rhywfaint o ddefnydd o ffynonellau eilaidd sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu effeithiol i ddarparu adborth i staff neu i fonitro a gwerthuso grwpiau o athrawon unigol a'r ysgol gyfan.

**Capasiti i wella D**

- Nid yw arweinwyr yr ysgol yn deall yr amrywiaeth o feysydd sydd i'w gwella na'u heffaith ar berfformiad gwael yr ysgol. Nid yw'r ysgol yn ymdrin yn effeithiol â thangyflawni.
- Nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon trylwyr. Nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar ddeilliannau. Nid yw'r ysgol yn ymdrin â meysydd sydd i'w gwella.
- Defnyddir data ar gyfer rheoli a gwella'r ysgol mewn ffordd annigonol ac/neu aneffeithiol.
- Nid yw perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn benodol, yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi ac nid yw'n sail i strategaethau addysgu.
- Nid yw'r arweinwyr yn rhoi cyfeiriad clir. Nid yw eu gweledigaeth yn canolbwyntio ddigon ar wella deilliannau ac, o ganlyniad, nid ydynt wedi llwyddo, ar y cyfan, i wneud gwelliannau a'u cynnal.
- Nid oes gan yr arweinwyr a'r llywodraethwyr ddigon o wybodaeth berthnasol ac/neu nid ydynt yn ei defnyddio i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ni chaiff polisïau a mentrau eu gweithredu'n gyson.
- Nid yw'r llywodraethwyr yn effeithio'n ddigonol ar gyfeiriad a gwaith yr ysgol ac/neu nid ydynt yn ei herio i wella.
- Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau yn aneglur ac/neu nid yw'r staff yn ymrwymedig i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Nid yw'r rheolaeth linell na'r atebolrwydd yn eglur.
- Prin iawn, os o gwbl, yw'r wybodaeth y mae llywodraethwyr yn ei derbyn am berfformiad dysgwyr a staff. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi rhai o'r blaenoriaethau cywir ond nid yw'r staff allweddol yn atebol iddo pan nad ydynt yn cymryd y camau angenrheidiol.
- Nid yw'r corff llywodraethu yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- Ychydig o effaith, os o gwbl, y mae atebolrwydd a systemau yn eu cael ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae elfennau o bryder critigol yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysgu, ac ychydig o arferion da a welir; hefyd/neu mae arferion gwael yn amlwg o fewn nifer sylweddol o feysydd/dosbarthiadau. Mae safonau cyrhaeddiad yn isel ac mae'r cynnydd yn anfoddhaol. Mae'r strategaethau i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gyfyngedig a/neu'n aneffeithiol.
- Ychydig iawn o athrawon sydd â dealltwriaeth glir o'r hyn yw addysgu, dysgu ac adborth i ddysgwyr sy'n ardderchog a da. Ni cheir cymedroli mewnol i hybu dealltwriaeth yr athrawon a'r staff cymorth. Ceir cydberthyniad gwael, os o gwbl, rhwng asesiadau athrawon a sgoriau safonedig profion neu arholiadau allanol.
- Nid oes unrhyw bolisïau a systemau clir yn eu lle ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Nid yw'r canllawiau ar gyfer arweinwyr y cwricwlwm ac arweinwyr addysgeg yn disgrifio'n ddigonol y modd y dylent ymgymryd â'u gwaith. Nid oes unrhyw adrodd i lywodraethwyr ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.
- Nid yw'r addysgu a'r dysgu yn cael eu monitro a'u gwerthuso neu ychydig iawn o hyn sy'n cael ei wneud. Pan fo hyn yn digwydd, ni roddir adborth proffesiynol yn effeithiol ac nid oes unrhyw groesgyfeirio at ffynonellau eilaidd o safbwynt effeithiolrwydd addysgu a dysgu.

**Atodiad 2**

**Cam 3:** Categorïau cymorth ysgolion

| Ysgol effeithiol iawn nad oes angen llawer o waith monitro arni [gwyrdd]. | Ysgol effeithiol sydd angen rhywfaint o waith monitro a chymorth [melyn]. | Ysgol y mae angen ei gwella ac sydd angen cymorth a gwaith monitro penodol [oren] | Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac sydd angen cymorth sylweddol [coch]. |
|---|---|---|---|
| • Mae gan yr ysgol enw da wrth gynnal lefel uchel o ddeillianau dysgwyr<br>• Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda ac yn nodi ac yn gweithredu ei pholisïau ei hun i sicrhau gwelliannau yn llwyddiannus<br>• Mae'r ysgol yn dangos gwydnwch ar bob lefel<br>• Caiff yr ysgol ei gwobrwyo â mwy o annibyniaeth<br>• Caiff yr ysgol ei herio i symud at neu gynnal rhagoriaeth | • Mae'r ysgol wedi sicrhau lefelau da o ran deilliannau dysgwyr yn y prif ddangosyddion perfformiad<br>• Mae'r ysgol yn gwybod, deall ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd y mae angen eu gwella<br>• Mae sawl agwedd ar berfformiad yr ysgol yn hunanwella | • Nid yw'r ysgol yn gwybod ac yn deall yr holl feysydd sydd angen eu gwella<br>• Mae agweddau ar berfformiad yr ysgol nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym<br>• Bydd yr ysgol yn derbyn her ac ymyrraeth wedi'u teilwra a ddefnyddir yn ôl yr angen<br>• Bydd yr ymgynghorydd her yn cymeradwyo hunanwerthusiad a chynllun gwella'r ysgol | • Mae agweddau allweddol ar berfformiad yr ysgol yn dirywio<br>• Bydd yr ysgol yn derbyn cefnogaeth ddwys<br>• Bydd yr ysgol yn destun ymyrraeth a fydd yn cynnwys cydweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol<br>• Caiff yr ysgol ei chyfarwyddo fwyfwy gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. |
| Mae gan yr ysgol y capasiti i arwain eraill yn effeithiol a chyfrannu at gymorth rhwng ysgol ac ysgol. | Mae'r ysgol yn chwilio am her a chymorth wedi'u teilwra ac yn eu defnyddio yn ôl yr angen. ALl i wirio'r cynnydd. | Ymweliad monitro gan ymgynghorydd yr ALl i nodi meysydd penodol ar gyfer eu gwella. | ALl i gyfarfod y Corff Llywodraethu i rannu pryderon ac amlinellu beth sydd angen ei wneud o fewn amserlen benodol. Hyn i'w gadarnhau yn ysgrifenedig a, lle bo'n briodol, gall yr ALl ddefnyddio pwerau statudol.<br>Yr ALl i fonitro cynnydd bob hanner tymor. Yn bresennol yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu i adrodd am gynnydd bob hanner tymor. |
| | Os bydd y broses fonitro yn nodi dirywiad yn y safonau neu yn y capasiti i wella neu os na fydd y cynnydd yn ddigonol, yna yr ysgol i symud i gategori ysgol y mae angen cymorth a gwaith monitro penodol arni [oren]] | ALl i drefnu cyfarfod er mwyn rhannu pryderon gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Hyn i'w gadarnhau yn ysgrifenedig. Disgwylir y bydd angen cefnogaeth oren ar ysgol yn ystod y tymor byr yn unig. | Cyfarfod gyda'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr ac Uwch Swyddogion Addysg i benderfynu a gafwyd cynnydd digonol, caniatáu mwy o amser i weithredu argymhellion neu symud ymlaen i ddefnyddio **<u>pwerau ymyrryd ffurfiol.</u>** |
| | | Ysgol i lunio cynllun gweithredu i'w gytuno gan yr ALl. | |
| | | ALl i fonitro cynnydd ar ôl dau dymor. | |
| | | Ysgol i dderbyn her ac ymyrraeth penodol dros gyfnod penodol o amser.<br>Cyfarfod rhwng y Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Uwch Swyddogion Addysg i benderfynu a gafwyd cynnydd digonol, caniatáu mwy o amser i weithredu argymhellion neu symud i gategori ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac sydd angen cymorth sylweddol [coch]. | |

**Atodiad 3**

**Pwerau Ymyrryd yr Awdurdod Lleol**

Bydd ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth' pan fydd un o'r rhesymau a nodir isod 1-6 yn berthnasol; pan fydd hysbysiad rhybuddio wedi'i gyhoeddi i'r corff llywodraethu ond nid yw wedi cydymffurfio â'r rhybudd hwnnw er boddhad yr awdurdod,

Disgwylir i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion drwy drafod yn broffesiynol a gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod crefyddol lle bo'r angen i fynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder i'r awdurdod lleol. Os bydd ysgol yn gwrthod ymgysylltu'n adeiladol â'r her a'r cymorth a gomisiynwyd neu a ddarparwyd gan y consortia rhanbarthol, dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi hysbysiad rhybuddio er mwyn cyflwyno'r cymorth angenrheidiol cyn y bydd y materion sy'n peri pryder yn arwain at fethiant yr ysgol, os bydd o leiaf un o'r rhesymau dros ymyrryd yn bodoli.

**Seiliau**
O dan adran 3 o Ddeddf 2013 caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn yn bodoli:

| | |
|---|---|
| Sail 1: | Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel. |
| Sail 2: | Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu. |
| Sail 3: | Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol. |
| Sail 4: | Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall). |
| Sail 5: | Mae'r corff llywodraethu neu'r Pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg. |
| Sail 6: | Mae'r corff llywodraethu neu'r Pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg. |

**Rhoi hysbysiad rhybuddio**
Rhaid rhoi hysbysiad rhybuddio ysgrifenedig i'r corff llywodraethu a rhaid iddo nodi:

- y seiliau dros ymyrryd.
- y rhesymau pam y mae'r awdurdod wedi ei fodloni bod y seiliau'n bodoli. Dylai hyn nodi'n fanwl y materion y mae'r pryderon yn seiliedig arnynt ac esbonio'r ffeithiau sy'n bodoli yn yr ysgol benodol honno a'r amgylchiadau sydd yn peri pryder.
- y camau y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd.
- y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ('y cyfnod cydymffurfio').
- y camau y mae'r awdurdod lleol â'i fryd ar eu cymryd os bydd (o dan un neu fwy o adrannau 5 i 9 yn Neddf 2013 neu fel arall) y corff llywodraethu'n methu â chymryd y camau sy'n ofynnol. (Nid yw'r awdurdod lleol wedi ei gyfyngu i gymryd y camau y dywedodd ei fod â'i fryd ar eu cymryd mewn hysbysiad rhybuddio).

Os bydd yr awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad rhybuddio ac os na chydymffurfir ag ef er boddhad yr awdurdod o fewn y cyfnod cydymffurio, mae'r ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth. Os oes angen ymyrryd ar frys, gallai hyn fod un diwrnod gwaith yn unig ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio. Nid yw'r awdurdod lleol wedi ei gyfyngu i gymryd y camau y dywedodd ei fod â'i fryd ar eu cymryd mewn hysbysiad rhybuddio.

**Pwerau a mathau o ymyrraeth – awdurdodau lleol**
Os bydd ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth' mae nifer o bwerau y gall yr awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru eu defnyddio i wella'r ysgol. Disgwylir i'r awdurdod lleol weithredu yn y lle cyntaf. Bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd dim ond pan fydd awdurdod lleol wedi methu â gwneud hynny neu wedi gwneud hynny'n annigonol. Rhaid i awdurdodau lleol roi rhybudd rhesymol ysgrifenedig i'r corff llywodraethu eu bod yn bwriadu defnyddio eu pwerau.

**Pwerau awdurdodau lleol**

1 **Gofyniad i sicrhau cyngor neu gydlafurio**
Mae Adran 5 yn galluogi awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu ymrwymo i gontract neu drefniant arall i gael cyngor a/neu gydlafurio pan fydd ysgol yn gymwys i ymyrraeth.
Nid yw cydlafurio yn ateb i bob problem, ond gall fod yn ddull pwerus o wella ysgolion. Dylid defnyddio trefniadau cydlafurio felly lle bo hynny'n briodol fel rhan o'r pecyn o gymorth ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder.
**Pwrpas yr ymyrraeth:** Ei gwneud yn ofynnol i ysgol sy'n peri pryder geisio cyngor neu gydlafurio er mwyn sicrhau gwelliannau.
**Yr adeg gorau i ddefnyddio'r pŵer:** Pan fydd yr ysgol neu'r prif unigolion o fewn yr ysgol yn gwrthod cydlafurio â phartner priodol.

2 **Penodi llywodraethwyr ychwanegol**
Mae'r awdurdod lleol yn debygol o benodi llywodraethwyr ychwanegol pan fydd yn dymuno elwa ar arbenigedd

ychwanegol. Caiff yr awdurdod lleol benodi cymaint o lywodraethwyr ychwanegol ag y gwêl yn dda.
**Pwrpas yr ymyrraeth:** Cryfhau llais yr awdurdod lleol ar y corff llywodraethu a/neu ddarparu arbenigedd ychwanegol i'r llywodraethwyr mewn meysydd allweddol er mwyn cefnogi gwelliannau yn yr ysgol.
**Yr adeg gorau i ddefnyddio'r pŵer:** Pan fydd angen arbenigedd ychwanegol ar y corff llywodraethu, neu pan fydd angen her a chymorth ychwanegol ar y pennaeth a'r uwch dîm rheoli.

3 **Penodi Corff Llywodraethu o Aelodau Gweithrediaeth Interim (IEB)**
Mae Gweithrediaeth Interim yn gorff llywodraethu arbennig sydd yn cymryd lle corff llywodraethu presennol yr ysgol. Gellir defnyddio Gweithrediaeth Interim i herio arweinyddiaeth ysgol er mwyn sicrhau gwelliannau buan neu pan fydd methiant difrifol yn y berthynas waith o fewn corff llywodraethu'r ysgol.
**Pwrpas yr ymyrraeth:** Sicrhau newid sylfaenol yn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol drwy ddefnyddio corff llywodraethu a benodir yn arbennig dros dro.
**Yr adeg gorau i ddefnyddio'r pŵer:** Pan fydd y corff llywodraethu yn methu â darparu her digonol i'r pennaeth neu'r uwch dîm rheoli, yn rhwystr i gynnydd, neu pan fydd methiant difrifol yn y berthynas waith sy'n effeithio ar safonau.

4 **Atal dros dro yr hawl i'r corff llywodraethu gael cyllideb ddirprwyedig**
Caiff yr awdurdod lleol atal dros dro hawl y corff llywodraethu i gael cyllideb ddirprwyedig er mwyn cael rheolaeth dros benderfyniadau staffio a gwario eraill. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gael gwared ag athrawon sy'n perfformio'n wael neu Benaethiaid os oes angen, neu gymryd rheolaeth o ddiffygion yn y gyllideb. Mae hefyd yn galluogi llywodraethwyr i ganolbwyntio eu hamser a'u sylw ar flaenoriaethau eraill er mwyn sicrhau gwelliannau.
**Pwrpas yr ymyrraeth:** Cael rheolaeth dros benderfyniadau staffio a gwario er mwyn sicrhau gwelliannau.
**Yr adeg gorau i ddefnyddio'r pŵer:** Pan na fydd corff llywodraethu yn cynnig her digonol i'r Pennaeth neu uwch dîm rheoli'r ysgol, neu pan fydd rheolaeth o'r gyllideb yn tynnu sylw'r llywodraethwyr oddi wrth y blaenoriaethau gwella.

5 **Pŵer i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau**
Yn ôl Adran 9, caiff awdurdod lleol roi cyfarwyddiadau i'r corff llywodraethu neu Bennaeth neu gymryd unrhyw gamau eraill os yw'r ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth. Rhaid i'r Cyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a gellir ei amrywio neu ddiddymu gan gyfarwyddyd yn y dyfodol.
**Pwrpas yr ymyrraeth:** Galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd mewn ffordd gymesur ac addas er mwyn cymryd camau penodol, neu beidio â chymryd camau penodol, heb droi at ddulliau mwy cynhwysfawr o ymyrryd.
**Yr adeg gorau i ddefnyddio'r pŵer:** Pan fydd y corff llywodraethu wedi methu ag arfer ei swyddogaethau neu pan fydd yn eu harfer mewn ffordd afresymol.